# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

22/9/23

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 28 Medi 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
   **Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2023 (Tudalennau 3 - 6)**

4. **Y ddarpariaeth Addysg ol-16 mewn ysgolion (Tudalennau 7 - 52)**

5. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 53 - 58)**

6. **I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft (Tudalennau 59 - 62)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 28 Medi 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Ar-lein / Siambr, Penmorfa |
| **TEITL:** | Canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2023 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er gwybodaeth |

**CEFNDIR:**

O ganlyniad i bandemig Covid-19 ni gynhaliwyd arholiadau allanol yn eu dull traddodiadol mewn ysgolion yn Haf 2020 na Haf 2021.

Ar gyfer Haf 2022, penderfynwyd gan Cymwysterau Cymru y byddai canlyniadau ar lefel genedlaethol yn adlewyrchu pwynt hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau Haf 2019 a Haf 2021.

Ar gyfer Haf 2023, penderfynwyd gan Cymwysterau Cymru y byddai canlyniadau ar lefel genedlaethol yn adlewyrchu pwynt hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau Haf 2019 a Haf 2022.

I'r perwyl hwnnw, nid oes modd cymharu canlyniadau 2023 gyda blynyddoedd blaenorol.

Gweler isod ganrannau dros dro ar gyfer Ceredigion (bydd data swyddogol ar gael ddechrau Hydref).

**Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

***Canlyniadau TGAU 2023***

Cymariaethau Cenedlaethol – arholiadau Haf 2023 (TGAU CBAC yn unig)

| | **Ceredigion 2023** | **Cymru 2023** |
|---|---|---|
| Gradd A* - A | 24.8% | 21.7% |
| Gradd A* - C | 68.6% | 64.9% |
| Gradd A* - G | 97.2% | 96.9% |

Ystyrir ystod o ddangosyddion wrth arfarnu canlyniadau'n lleol. Mae'r rhain yn edrych ar raddau gorau disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 11:

| **Dangosydd** | **Diffiniad** | **Ceredigion 2023** |
|---|---|---|
| 5A*-C(LM) | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-C (neu gyfwerth) gan gynnwys Iaith a Mathemateg/Rhifedd | 55.0% |
| 5A*-C | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-C (neu gyfwerth) | 66.0% |
| 5A*-G | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-G (neu gyfwerth) | 92.2% |
| 5A*-A | Canran y disgyblion sydd wedi ennill 5 TGAU graddau A*-A (neu gyfwerth) | 22.4% |
| Cymraeg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill gradd TGAU A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf | 70.1% |
| Saesneg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill gradd TGAU A*-C mewn Saesneg Iaith | 62.3% |
| Mathemateg | Canran y disgyblion sydd wedi ennill gradd TGAU A*-C mewn Mathemateg | 58.5% |
| Rhifedd | Canran y disgyblion sydd wedi ennill gradd TGAU A*-C mewn Mathemateg Rhifedd | 57.2% |
| Gwyddoniaeth | Canran y disgyblion sydd wedi ennill gradd TGAU A*-C mewn Gwyddoniaeth | 62.8% |

***Canlyniadau Lefel A 2023***

Cymariaethau Cenedlaethol – arholiadau Haf 2023 (Safon Uwch CBAC yn unig)

| | **Ceredigion 2023** | **Cymru 2023** |
|---|---|---|
| Gradd A* - A | 37.5% | 34.0% |
| Gradd A* - B | 61.4% | n/a |
| Gradd A* - C | 82.5% | n/a |
| Gradd A* - E | 99.1% | 97.5% |

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:**<br>**Integreiddio:** |

**ARGYMHELLION:**

Dim

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Clive Williams & Elen James |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion & Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 1 Medi 2023 |
| **Acronymau:** | Dim |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 28 Medi 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Ar-lein / Siambr, Penmorfa |
| **TEITL:** | Y ddarpariaeth Addysg Ôl-16 mewn ysgolion |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er penderfyniad |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Er penderfyniad |

**CEFNDIR:**

Cytunwyd yng nghyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn rhithiol ar 11 Ionawr 2022 y byddai'n amserol cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion**.**

Bwriad yr adolygiad oedd darparu dadansoddiad ac arfarniad o'r sefyllfa gyfredol o ran darpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion a nodi opsiynau cynaliadwy i'r dyfodol, ynghyd â'u manteision ac anfanteision posib.

Nod yr adolygiad oedd i:
- greu set o egwyddorion cytûn a oedd yn ddysgwr-ganolog
- gynnig ystod o opsiynau hygyrch a chynaliadwy gan sicrhau bod llais y dysgwr, llywodraethwyr, rhieni, penaethiaid a swyddogion yr Awdurdod Lleol yn rhan annatod o'r broses
- sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi ei rhoi i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiadau cenedlaethol Estyn a chefndir polisi presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- rhoi ystyriaeth i wledigrwydd a goblygiadau ôl-troed carbon

Yn ogystal, roedd yna gyd-destun ehangach i'r adolygiad hwn, sef:
- Penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) a fydd yn gyfrifol, ymhlith materion eraill, am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r sector addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion.
- Adroddiad Thematig Estyn ar Bartneriaethau ôl-16 (Ionawr 2021)
- Y cyfleodd a geir drwy Bargen Dwf Canolbarth Cymru, y Strategaeth Economaidd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer anghenion a sgiliau gweithlu'r dyfodol a rôl ganolog y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) yn y broses o gasglu a dadansoddi'r wybodaeth

- Yr angen i sicrhau cynnig galwedigaethol eang ac o ansawdd, ynghyd ag arlwy ehangach o bynciau Safon Uwch, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr ddilyn cyfuniadau gwahanol o bynciau ac arbenigo yn eu diddordebau, waeth ble maent yn byw yn y sir
- Adroddiad Estyn - Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru (Hydref 2022).

Cytunwyd y dylid ystyried creu set o "egwyddorion cytûn a oedd yn ddysgwr ganolog", er mwyn sicrhau bod llais y dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a phenaethiaid yn cael lle canolog yn yr Adroddiad.

Lluniwyd chwech egwyddor sef –

1) Dylid blaenoriaethu anghenion y dysgwyr tros unrhyw anghenion sefydliadol
2) Dylid cynnal a gwella ymhellach y safonau cyffredin uchel a welwyd yn ysgolion Ceredigion.
3) Dylid sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws y Sir o ran y cynnig, y cyngor ac arweiniad, gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y patrwm dysgu a'r mynediad at gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth bwrpasol ac arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan sicrhau continwwm addysg ar eu cyfer yn absenoldeb ysgol arbennig yn y Sir.
4) Dylid cryfhau'r cynnig yn y Gymraeg i fod o leiaf yn gyson â'r cynnig yn y Saesneg er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a chyfrannu at weithlu a chymuned ddwyieithog.
5) Dylid sicrhau mynediad i ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o safon uchel gan gynyddu argaeledd presennol cyrsiau galwedigaethol i ddisgyblion ym mhob rhan o'r Sir.
6) Dylid sicrhau bod llywodraethiant y ddarpariaeth ôl-16 yn hyrwyddo'r egwyddorion uchod, yn ystyried prosesau gwella ansawdd strategol, yn sicrhau bod gwariant yn cael ei gadw gymaint â phosib oddi mewn i'r gyllideb ôl-16 ac yn caniatáu gwneud penderfyniadau sydd yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol ac ôl-troed carbon.

Darn allweddol o'r adolygiad oedd casglu barn grŵp eang o randdeiliaid. Anfonwyd arolygon allan i grwpiau allweddol, sef dysgwyr, rhieni/gofalwyr, athrawon a chyflogwyr a derbyniwyd cyfanswm o 1,306 o ymatebion gan yr unigolion hyn. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o ddarparwyr addysgol, yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill.

Dadansoddwyd yr ymatebion a gosodwyd yr ymatebion o dan chwech prif thema sef -

- Dewis eang
- Iaith
- Lleoliad
- Cysylltiadau byd gwaith
- Cydweithio rhwng ysgolion neu sefydlu canolfannau rhagori
- Athrawon a chyngor da, di-duedd

Y cam dilynol oedd i ystyried y sefyllfa gyfredol h.y. niferoedd disgyblion, y sefyllfa gyllidol, yr ystod / dewis o bynciau sydd ar gael i'r dysgwyr ayyb, ac i lunio opsiynau i'w hystyried a fyddai'n edrych ar fanteision ac anfanteision yng nghyd-destun yr egwyddorion.

Yn gryno, mae'r Adolygiad yn gofyn barn am bedair opsiwn posib sef:

**Opsiwn 1: Cynnal y Sefyllfa Gyfredol**

**Opsiwn 2: Datblygu'r Sefyllfa Gyfredol**

Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau ar y 6 safle presennol. Byddai'r 6 Bwrdd Llywodraethol presennol yn parhau efo'u rolau presennol o ran llywodraethiant hyd at 16 ond yn cytuno efo'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol a fyddai'n rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill.

**Opsiwn 3: Darpariaeth mewn rhai ysgolion**

Byddai'r opsiwn hwn yn ddatblygiad o Opsiwn 2 uchod. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 ar un neu fwy o safleoedd. Yna, megis yn Opsiwn 2, byddai'r Byrddau Llywodraethol hynny yn parhau efo'u rolau presennol o ran llywodraethiant tan oed 16 ac yn cytuno efo'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol fyddai yn rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill. Byddai'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am fonitro ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Lleol a'r darparwyr ar gyfer gwella.

**Opsiwn 4: Un Ganolfan**

Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig newid mwy pellgyrhaeddol. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol a sefydlu Canolfan Ragoriaeth, yn cynnwys ystod o bartneriaid, ar un neu fwy o safleoedd daearyddol addas. Byddai Corff Llywodraethol sydd yn annibynnol o'r ysgolion yn gyfrifol am y cyllid a'r cwricwlwm ac yn penodi nifer fechan o staff craidd ar gyfer llywio a rheoli'r gwaith.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br>Amherthnasol ar hyn o bryd<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:** |

**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**ARGYMHELLION:**

1. **Nodi cynnwys yr Adroddiad – 'ADOLYGU'R DDARPARIAETH ÔL-16 YNG NGHEREDIGION'.**
2. **Cynnal Astudiaeth Ddichonolrwydd er mwyn rhoi ystyriaeth fanwl i Opsiwn 2 ag Opsiwn 4 yn yr Adolygiad.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

1. **Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i nodi cynnwys yr Adroddiad.**
2. **Ystyried ymhellach manteision ac anfanteision Opsiwn 2 ag Opsiwn 4 yng nghyd-destun y chwech egwyddor.**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elen James & Clive Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dysgu Gydol Oes & Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 10 Medi 2023 |
| **Acronymau:** | Dim |



# ADOLYGU'R DDARPARIAETH ÔL-16 YNG NGHEREDIGION

Haf 2023

## Cynnwys

1. Cefndir a chyd-destun
2. Egwyddorion cytûn
3. Sail y dystiolaeth
4. Dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd
5. Sefyllfa gyfredol
6. Dadansoddi'r egwyddorion yng nghyd-destun y sefyllfa gyfredol
7. Niferoedd disgyblion chweched dosbarth
8. Y sefyllfa gyllidol
9. Opsiynau i'r hystyried
10. Ystyriaeth o'r gwahanol opsiynau yng nghyd-destun yr egwyddorion

# Darpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion

## 1. Cefndir a chyd-destun

Bwriad yr adolygiad hwn yw darparu dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol o ran darpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion a nodi opsiynau cynaliadwy i'r dyfodol, ynghyd â'u manteision ac anfanteision posib.

'Sefydlu brîff a chynnal adolygiad o addysg ôl-16 i'w gyflwyno i'r Cabinet' gyda'r rheswm am y penderfyniad wedi'i gofnodi fel 'cael dadansoddiad ac arfarniad diweddar o'r ddarpariaeth ôl-16 yn y sir.'

Bwriad yr adolygiad oedd:

- creu set o egwyddorion cytûn sydd yn ddysgwr-ganolog
- cynnig ystod o opsiynau hygyrch a chynaliadwy

ac wrth wneud hynny ein bod yn:

- sicrhau bod llais y dysgwr, llywodraethwyr, rhieni, penaethiaid a swyddogion yr Awdurdod Lleol yn rhan annatod o'r broses
- sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi ei rhoi i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiadau cenedlaethol Estyn a chefndir polisi presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- rhoi ystyriaeth i wledigrwydd a goblygiadau ôl-troed carbon

Mae cyd-destun ehangach i'r adolygiad hwn yn ogystal, sef:

i) Penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil** (CADY) [1] a fydd yn gyfrifol, ymhlith materion eraill, am strategaeth, cyllido a goruchwylio'r sector addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion. Cyfrifoldebau'r CADY fydd:

- diogelu buddiannau dysgwyr, a sicrhau bod dysgu galwedigaethol a dysgu academaidd yn cael yr un parch
- sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn fwy cydnaws ag anghenion cyflogwyr

[1] https://llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil

- monitro perfformiad a llywodraethiant ar yr un pryd ag amddiffyn rhyddid academaidd sefydliadau
- monitro a hybu gwelliant ymysg darparwyr addysg a hyfforddiant
- cymryd dull gweithredu system gyfan ar gyfer cyllido ymchwil ac arloesi, gyda'r gallu i ddarparu cyllid i ystod eang o sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- cynyddu'r addysg drydyddol sydd ar gael yn Gymraeg ac annog unigolion i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y bwriad yw bydd awdurdodau lleol yn cytuno i gytundeb â'r Comisiwn ar sut mae ariannu yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, bydd cyfrifoldeb strategol gyda'r Comisiwn i sicrhau cyfleusterau addas ar gyfer addysg 16 i 19 mlwydd oed. Bydd gan y Comisiwn yr hawl i gyfeirio awdurdodau lleol i derfynu neu ddechrau darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgol neu ardal penodol. Bydd y Comisiwn yn weithredol o fis Medi 2023.

ii) **Adroddiad Thematig Estyn ar Bartneriaethau ôl-16**[2] *(Ionawr 2021)* sydd yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

Dylai ysgolion a cholegau:

- sicrhau gwaith partneriaeth cryf i ddatblygu darpariaeth gydweithredol â darparwyr eraill lle mae hyn yn helpu i wella ansawdd neu ehangu dewis
- sicrhau bod darpariaeth ôl-16 a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn cael ei hategu gan gytundebau ysgrifenedig o gyfrifoldebau, ac y caiff ei chynnwys yn llawn o fewn prosesau cynllunio gwelliant
- sicrhau bod cyngor ac arweiniad i ddysgwyr yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, ac yn cael ei lywio gan y ddarpariaeth, y safonau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 lleol

Dylai awdurdodau lleol:

- sicrhau bod cynllunio strategol yn cynnwys y gymuned ehangach o ysgolion a cholegau lleol
- gweithio gyda cholegau ar weithgareddau dysgu proffesiynol ar y cyd, lle bo'n briodol

[2] https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Post-16%20partnerships%20cy.pdf

- gweithio gyda cholegau i sicrhau bod ystod addas o ddarpariaeth ôl-16 ar gael yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg

**iii)** Y cyfleodd a geir drwy **Bargen Dwf Canolbarth Cymru ,** y **Strategaeth Economaidd**[3] a'r **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**[4] ar gyfer anghenion a sgiliau gweithlu'r dyfodol a rôl ganolog y **Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP)** yn y broses o gasglu a dadansoddi'r wybodaeth

**iv)** Yr angen i sicrhau **cynnig galwedigaethol** eang ac o ansawdd, ynghyd ag **arlwy ehangach o bynciau Safon Uwch**, sy'n caniatáu i ddysgwyr ddilyn cyfuniadau gwahanol o bynciau ac arbenigo yn eu diddordebau, waeth ble maent yn byw yn y sir

**v)** Ers i'r gwaith ddechrau ar yr adolygiad, cyhoeddodd Estyn adroddiad pellach yn y maes, **Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru** [5] *(Hydref 2022).* Mae'r argymhellion sydd yn deillio o'r adroddiad hwn yn cynnwys:

Dylai darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 weithio gyda'i gilydd i:

- sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfle teg i fanteisio ar opsiynau galwedigaethol, a bod yr opsiynau hyn yn cael eu gwerthfawrogi fel opsiynau addysg gyffredinol
- sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael cyfle teg i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- sicrhau bod yr holl ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd sy'n cwmpasu'r holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn eu hardal leol

[3] http://tyfucanolbarth.cymru/article/10704/Bargen-Dwf-Canolbarth-Cymru
[4] http://tyfucanolbarth.cymru/partneriaethsgiliaucanolbarthcymru
[5] https://www.estyn.gov.wales/system/files/2022-10/Adolygiad%20o%E2%80%99r%20cwricwlwm%2016-19%20presennol%20yng%20Nghymru_0.pdf

ac, yn fwy cyffredinol, bod angen:

- sicrhau bod darparwyr yn cydweithio mwy i gynnig cyfle i ddysgwyr ddilyn ystod ehangach o gyrsiau na’r hyn y mae darparwyr unigol naill ai ddim yn ei gynnig, neu yn ei gynnig, ond nad ydynt yn cael eu cynnal oherwydd niferoedd isel (gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg)

Yn ogystal â’r uchod daeth yn amlwg yn ystod yr adolygiad, mewn sgyrsiau gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig bod y rhagolygon economaidd ar gyfer yr awdurdod, yn arbennig yng nghyd-destun canfyddiadau cyfrifiad 2021, ddim yn addawol a bod rhesymoli gwasanaethau yn anorfod. Nodwyd diffyg sicrwydd am gynaladwyedd haelioni cymharol Ceredigion wrth ariannu ysgolion, ac na fyddai’r ddarpariaeth ôl-16 yn wahanol yn hyn o beth. Nododd yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol-Oes a Sgiliau bwysigrwydd cynnal y safonau addysg oedd yn ysgolion Ceredigion ac na ddylai unrhyw newid effeithio yn negyddol ar hynny.

## 2. Egwyddorion

Nodir yn y briff, fel rhan o gwmpawd yr adolygiad, wrth lunio opsiynau ar gyfer Pwyllgor Troslowg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a Chabinet y Cyngor Sir, y dylid ystyried creu set o "egwyddorion cytûn sydd yn ddysgwr ganolog". Dylai'r egwyddorion hyn sicrhau bod llais y dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a phenaethiaid yn cael lle canolog. Eu diben yw cynorthwyo'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet i ffurfio meini prawf addas ar gyfer penderfynu pa opsiwn, o'r continwwm a gyflwynir yn adran 9 y maent yn ei ffafrio.

Wrth wneud penderfyniadau ar ddatblygu'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngheredigion, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adolygiad hwn wedi ein harwain at gynnig yr egwyddorion canlynol:

**Egwyddor 1:**

Dylid blaenoriaethu anghenion y dysgwr tros unrhyw anghenion sefydliadol.

**Egwyddor 2:**

Dylid cynnal a gwella ymhellach y safonau cyffredinol uchel a welwyd yn ysgolion

Ceredigion.

**Egwyddor 3:**

Dylid sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws y sir o ran y cynnig, y cyngor ac arweiniad, gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu a'r mynediad at gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth bwrpasol ac arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan sicrhau continwwm addysg ar eu cyfer yn absenoldeb ysgol arbennig yn y Sir.

**Egwyddor 4:**

Dylid cryfhau'r cynnig yn y Gymraeg i fod o leiaf yn gyson â'r cynnig yn y Saesneg er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a chyfrannu at weithlu a chymuned ddwyieithog.

**Egwyddor 5:**


Dylid sicrhau mynediad i ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o safon uchel gan gynyddu argaeledd presennol cyrsiau galwedigaethol i ddisgyblion ym mhob rhan o'r Sir.

**Egwyddor 6:**

Dylid sicrhau bod llywodraethiant y ddarpariaeth ôl-16 yn hyrwyddo'r egwyddorion uchod, yn ystyried prosesau gwella ansawdd strategol, yn sicrhau bod gwariant yn cael ei gadw gymaint â phosib oddi mewn i'r gyllideb ôl-16 ac yn caniatáu gwneud penderfyniadau sydd yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol ac ôl-troed carbon.

## 3. Sail y Dystiolaeth

Gwnaeth yr adolygiad gasglu barn grŵp eang o randdeiliaid. Anfonwyd arolygon allan i grwpiau allweddol a derbyniwyd cyfanswm o 1,306 o ymatebion gan yr unigolion hyn.




Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o ddarparwyr addysgol, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill.

Bu i'r canlynol gyfrannu'n llawn i'r trafodaethau (gweler mwy o fanylder yn Atodiad 11.1):

- **Dysgwyr –** lluniwyd holiadur ar-lein gyda chwestiynau pwrpasol i ddysgwyr o oed Cynradd hyd at 25 oed. Derbyniwyd 598 o ymatebion.
- **Rhieni –** lluniwyd holiadur ar-lein gyda chwestiynau pwrpasol i rieni dysgwyr o oed Cynradd i 25 oed. Derbyniwyd 652 o ymatebion.
- **Penaethiaid** a **Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion 3-16, 11-18 a 3-19 –** cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol gyda phob ysgol ar wahân ac yna cyfarfod pellach wyneb-yn-wyneb gyda'r holl benaethiaid gyda'i gilydd.
- **Dirprwy Benaethiaid, Penaethiaid Chweched Dosbarth** ac **Uwch Reolwyr** – cynhaliwyd cyfarfod rhithiol gyda chynrychiolwyr o'r ysgolion uchod
- **Athrawon** - lluniwyd holiadur ar lein gyda chwestiynau pwrpasol i holl staff yr ysgolion. Derbyniwyd 51 o ymatebion.
- **Coleg Ceredigion** – cynhaliwyd cyfarfod rhithiol gyda'r Pennaeth ac Uwch Reolwr

- **Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)** – cafwyd ymweliad â’r safle yn Aberystwyth a thrafodaeth gyda’r Pennaeth ac Uwch Reolwr.
- **Cynrychiolwyr o Gyngor Ceredigion** – yn ogystal â chyfarfodydd rhithiol rheolaidd gyda staff yr adran addysg, cafwyd cyfarfodydd gyda’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol a gydag Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Cabinet Dros Ysgolion, Dysgu Gydol-Oes a Sgiliau.
- **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol  Canolbarth Cymru** – cyfarfod rhithiol gyda Rheolwr y Bartneriaeth
- **Cyflogwyr** - lluniwyd holiadur ar lein gyda chwestiynau pwrpasol. Derbyniwyd 5 ymateb.

Bu i’r adolygiad hefyd ystyried data hanesyddol a chyfredol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am:

- niferoedd dysgwyr
- cyllid
- niferoedd cyrsiau yn y Gymraeg a’r Saesneg
- niferoedd dysgwyr yn dilyn cyrsiau unigol yn y Gymraeg a’r Saesneg
- cyrchfannau a gwybodaeth am drefniadau partneriaethol presennol.

## 4. Dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd

Yn dilyn y cyfweliadau a dadansoddi'r holiaduron, aed ati i edrych am dueddiadau. Ceir dadansoddiad manylach i'r holiaduron yn Atodiad 11.1. Gweler isod grynodeb o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion.

- **Dewis eang –** nodwyd yr angen am ddewis cyfoethog o bynciau gydag ansawdd dysgu uchel. Nodwyd yr angen am gwricwlwm i fwrw anghenion ystod lawn o ddysgwyr galwedigaethol, prentisiaethau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

- **Iaith –** y gallu i ddysgu trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg a phwysigrwydd parhad o Gyfnod Allweddol 4 i Gyfnod Allweddol 5.

- **Lleoliad –** nodwyd gan nifer y buddion o aros yn yr un sefydliad o ran dyhead, ethos a thrafnidiaeth

- **Cysylltiadau byd gwaith –** nodwyd bod profiadau yn y byd gwaith yn fuddiol er mwyn helpu gyda dewisiadau yn enwedig gyda chyrsiau galwedigaethol

- **Cydweithio rhwng ysgolion neu sefydlu canolfannau rhagori –** enwyd Aberystwyth ac Aberteifi fel lleoliadau ar gyfer canolfannau rhagori gan rai. Cyfuno 6ed dosbarth ysgolion Aberystwyth oedd dymuniad eraill, tra cyfuno amserlenni a chaniatáu i staff i deithio o ysgol i ysgol oedd cynnig pellach.

- **Athrawon a chyngor da, di-duedd –** nodwyd pwysigrwydd cael arbenigwyr cefnogol, sy'n adnabod y dysgwr. Hefyd, wrth bontio i addysg ôl 16 yr angen i godi ymwybyddiaeth o swyddi a chyfleoedd tu hwnt i'r arlwy traddodiadol

# 5. Y Sefyllfa gyfredol

## 5i) Niferoedd disgyblion, yr ystod dewis a'r opsiynau sydd ar gael i'r dysgwyr

Gweler isod dabl yn nodi cyfartaledd niferoedd disgyblion fesul cwrs, y cymwysterau fesul ysgol a fesul cyfrwng eu arholiad (Haf 2022). Gweler manylion pellach yn Atodiad 11.2.

| | Data arholiadau Haf 2022 | Aberaeron | | Aberteifi | | Penglais | | Penweddig | | Bro Pedr | | Bro Teifi | | Ceredigion | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Eithrio'r BAC | *Cyfrwng yr cymhwyster* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* | *CYM* | *SAES* |
| | Nifer y cyrsiau | 1 | 15 | 0 | 18 | 0 | 27 | 17 | 10 | 5 | 22 | 12 | 8 | 20 | 45 |
| | Cyfartaledd disgyblion | 1.0 | 5.3 | - | 5.6 | - | 12.7 | 4.4 | 4.2 | 3.4 | 7.3 | 4.2 | 6.5 | 7.1 | 17.2 |
| | Cyfanswm cyrsiau | 15 | | 18 | | 27 | | 21 | | 23 | | 20 | | 50 | |
| | Cyfartaledd disgyblion | 5.3 | | 5.6 | | 12.7 | | 5.5 | | 7.7 | | 5.1 | | 18.3 | |
| Cynnwys y BAC | Cyfanswm cyrsiau | 16 | | 19 | | 28 | | 22 | | 24 | | 21 | | 51 | |
| | Cyfartaledd disgyblion | 7.2 | | 7.1 | | 16.3 | | 7.0 | | 9.8 | | 6.6 | | 24.2 | |
| | Nifer y cyrsiau ≥ 12 disgybl | 1 | | 3 | | 13 | | 2 | | 5 | | 1 | | 21 | |
| | Fel % | 6% | | 16% | | 46% | | 9% | | 21% | | 5% | | 41% | |

* Nid yw'n bosib gwybod "iaith" y BAC o'r data swyddogol, felly mae wedi ei eithrio o ran cyntaf y tabl uchod

Mae'r cyfartaledd y disgyblion sydd ar gyrsiau ôl-16 yn llai na 12 mewn 5 allan o'r 6 ysgol ac yn llai na 6 disgybl mewn 4 allan o'r 6 os nad yw'r data yn cynnwys cymhwyster Bagloriaeth Cymru (cyfeirir ato yn y tabl uchod fel y 'BAC'). O gynnwys y Fagloriaeth, mae'r cyfartaledd dal yn llai na 12 disgybl mewn 5 allan o'r 6 ysgol.

Mae nifer cyfyngedig o bynciau yn cael eu dysgu mewn partneriaeth, gydag un ysgol yn darparu'r pwnc i eraill, gan gynnwys disgyblion eu hunain. Er enghraifft, yn 2021, roedd Bro Pedr yn darparu Mathemateg Bellach, Drama a Ffrangeg i Fro Teifi; ond hefyd darpariaeth o du allan i'r sir gyda Phenweddig yn derbyn Almaeneg o Grughywel a Bro Teifi yn derbyn Troseddeg o Fro Myrddin.

Mae cyfraddau trosglwyddo Ceredigion wedi disgyn ar hyd y pum mlynedd diwethaf, a bellach dim ond 54% o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n parhau mewn ysgol i flwyddyn 12. Ar ei uchaf, roedd y gyfran trosglwyddo yn 69% yn 2017-18. Gweler mwy o fanylder o ran ysgolion unigol yn Atodiad 11.3.

## Ceredigion

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl 13 | 448 | 461 | 409 | 358 | 382 | 308 | 367 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl 12* | - | *86%* | *84%* | *80%* | *83%* | *83%* | *93%* |
| | *Bl 11* | - | - | *56%* | *51%* | *58%* | *49%* | *52%* |
| | Bl 12 | 535 | 485 | 449 | 459 | 372 | 393 | 390 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl 11* | - | *66%* | *64%* | *69%* | *59%* | *55%* | *54%* |
| | Bl 11 | 736 | 698 | 662 | 631 | 711 | 728 | 709 |

Mae esiamplau cadarn o fewn yr awdurdod o ddarpariaeth ôl-16 allweddol i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mwy sylweddol i helpu eu pontio at fyw bywyd annibynnol yn eu cymunedau.

Mae Coleg Ceredigion a Hyfforddiant Ceredigion (HCT) yn awyddus iawn i osgoi dyblygu di-angen a sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm ôl-16 yn digwydd yn fwy strategol ar draws yr ystod llawn o bartneriaid. Dylid nodi nad oes unrhyw arlwy Gymraeg ar gael gan Goleg Ceredigion, a gweler Atodiad 11.4 am fwy o fanylder ar eu arlwy cyrsiau.

**5ii) Lles**

Mae ysgolion â nifer o ddarpariaethau sy'n cefnogi lles disgyblion chweched dosbarth megis gosod mentoriaid dysgu sy'n cynnig cefnogaeth fugeiliol ac academaidd gadarn i'r dysgwyr, llyfrgellwyr a mynediad at gwnselwyr lle bo hynny'n briodol.

**5iii) Y Gymraeg**

Ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y niferoedd sydd yn cychwyn ym mlwyddyn 7 ac sy'n cael eu cydnabod fel dysgwyr â medrau dwyieithog a'r niferoedd sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn cyrraedd y 6ed dosbarth.

Mae dwy o'r ysgolion, sef Ysgol Penweddig ac Ysgol Bro Teifi, yn diffinio eu hunain fel ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig ac ar hyn o bryd yn prysuro eu taith tuag at ddiogelu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg o flwyddyn 7 i flwyddyn 13.

Yn gyffredinol, niferoedd bach iawn yn unig sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y 6ed dosbarth ar draws y sir. Mynegwyd consyrn am y posibilrwydd y byddai un opsiwn o geisio datrys yr her ôl-16 yn cynnig dysgu yn y ddwy iaith yn yr un ystafell ddosbarth fel

norm. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth pynciol trwy gyfrwng y Gymraeg, nodwyd gan rai arweinwyr fod pryder am golli ethos o Gymreictod y 6ed dosbarth**.**

**5 iv) Darpariaeth alwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr**

Mae pob un o'r ysgolion yn cynnig rhai pynciau galwedigaethol. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn bennaf o fewn y meysydd Iechyd a Gofal, Busnes, Hamdden a Chwaraeon. Mewn rhai achosion mae'n bosib dilyn cyrsiau megis Dylunio Cynnyrch, Ffotograffiaeth (BTEC), TGCh (BTEC), gwaith gofaint, amaethyddiaeth a chefnogaeth i ddysgwyr ddilyn diploma Peirianneg sydd yn cyfateb i 3 lefel A. Gweler fwy o fanylder yn Atodiad 11.2.

Yr hyn sydd yn amlygu ei hunan yw fod y cynnig yn amrywio yn sylweddol ac yn anwastad ar draws y sir, sy'n anorfod yn codi cwestiwn am degwch y cynnig i fyfyrwyr ôl-16. Hefyd, mae'r cynnig yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn sydd yn ei gwneud hi'n anodd blaen-gynllunio e.e. argaeledd ffotograffiaeth, gweithgareddau awyr agored, a pheirianneg ar gael mewn un flwyddyn, ond nid y nesaf o achos galw gan ddysgwyr neu argaeledd staff.

Noda'r ysgolion lefelau gwahanol o hyder yn y cyrsiau sydd ar gael gan y Coleg – gyda chanmoliaeth arbennig i'r cwrs gwaith saer yng Ngholeg Ceredigion.

Mae teimlad cryf ymysg yr ysgolion y dylai fod darpariaeth effeithiol ar gael o fewn Ceredigion ar gyfer addysg alwedigaethol ym maes amaethyddiaeth.

**5 v) Y sefyllfa o ran dysgu a staffio**

Dros y blynyddoedd diwethaf mae sawl ysgol wedi sôn am yr her cynyddol wrth recriwtio i rai pynciau – yn arbennig y gwyddorau a phynciau galwedigaethol. Pan fo heriau recriwtio'n codi, yn ogystal â chael effaith posib ar ansawdd y ddarpariaeth, mae staff nad sydd yn rhugl yn y Gymraeg weithiau yn ymuno gyda'r ysgolion, ac mae hyn wedyn yn lleihau gallu'r ysgolion i gynnig opsiynau yn gyfartal yn y ddwy iaith.

Mewn rhai achosion mae hyn wedi dechrau effeithio ar gyfrwng y dewisiadau yn is lawr yn yr ysgol, ac yn effeithio ar iaith dydd i ddydd yr ysgol.

Mae nifer o athrawon wedi ymroi i geisio datblygu eu dwyieithrwydd. Mae darpariaeth sabothol ar raddfa genedlaethol ar eu cyfer , ond mae ysgolion yn teimlo fod angen datblygu dulliau hyblyg o ddysgu Cymraeg er mwyn i'w datblygiad ffitio i mewn gyda'u gwaith yn yr

ysgol. Nodwyd gan rai ysgolion nad oes ganddyn nhw staff sydd wedi troi eto at addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cyfnodau ar y rhaglen iaith. Fodd bynnag, gwerthfawrogir yn fawr gyfraniad yr awdurdod at y fenter hon.

Mae rhai o'r ysgolion wedi datblygu eu partneriaethau gyda'r canolfannau hyfforddi athrawon ar draws Cymru, a hynny er mwyn ceisio denu athrawon newydd pan fônt yn ymuno a'r proffesiwn. Fodd bynnag, mae teimlad cryf fod yr heriau recriwtio yn cynyddu yn flynyddol yn yr ysgolion hynny sydd angen staff dwyieithog.

**5 vi) Partneriaethau rhwng ysgolion a'i gilydd, a gyda darparwyr eraill**

Bu cynnydd yn y cyd-ddibyniaeth rhwng ysgolion a'i gilydd, gyda thwf e-sgol a dulliau eraill o gydweithio. Yn aml mae'r cysylltiadau rhwng y ddwy neu dair ysgol o amgylch pwnc penodol yn gadarnhaol. Mae barn gref hefyd bod trefniadau ymarferol y partneriaethau, gan gynnwys teithio a chyfyngiadau amserlen, yn rhwystr sylweddol i'r datblygiad.


Ceir rhai rhwystredigaethau, megis rhannu data tracio a chydbwysedd rhwng y darparwyr a'r derbynwyr. Nodwyd gan ddwy ysgol fod pethau'n gweithio'n well pan fo'r ddwy ysgol yn gyfirfol am addysgu modylau gwahanol at gwrs lefel A sy'n cael ei rannu, ac felly'n cadw arbenigedd a theimlad o berchnogaeth yn y ddwy ysgol.

Nodwyd cydweithio gyda Skillstart ym maes Peirianneg sy'n gost ychwanegol i'r ysgolion, a gwaith gofaint gyda HCT. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig hwn ar gael i bob ysgol o fewn y Sir.

Nodwyd hefyd fod dysgwyr yn rhy aml yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod eu tymor cyntaf o achos anawsterau gyda'u profiad coleg, yn aml yn gysylltiedig gyda theithio pellteroedd mawr am eu haddysg chweched dosbarth, neu i Goleg Penfro yn Hwlffordd.

Nodwyd esiamplau o gyd-weithio ar draws ffiniau sirol, gydag ysgolion ym Mhowys yn amlwg yn hyn. Mae esiamplau hefyd yn datblygu o gydweithio gydag ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, sydd mewn gwirionedd yn dangos yn eglur yr her sy'n bodoli wrth geisio cael datrysiadau sir gyfan mewn sir sydd yn eang o ran daearyddiaeth ac yn wasgaredig ei phoblogaeth.

Roedd y dysgwyr sydd yn rhannu cyrsiau rhwng ysgolion/sefydliadau yn nodi eu bod yn teithio pellteroedd amrywiol i gyrraedd eu darparwr ôl-16.  Nododd rhai eu bod yn gallu cerdded yno tra bo eraill yn teithio tros awr.




O'u holi pa mor bell byddent yn fodlon teithio ar gyfer dewis ehangach o gyrsiau, roedd hynny'n codi i oddeutu 30 munud.  O'u holi hwythau, roedd y rhieni, ar gyfartaledd, yn cadarnhau yr un parodrwydd i weld y daith yn cynyddu o oddeutu chwarter awr i oddeutu hanner awr pe byddai dewis ehangach o gyrsiau ar gael.  Fodd bynnag, roedd nifer yn nodi bod angen gwell trefniadau cludiant, yn arbennig o ardaloedd mwy gwledig.

Codwyd cwestiwn gan rai ysgolion am yr angen i edrych at y Brifysgol fel partner ar gyfer addysg ôl-16, yn enwedig yng ngoleuni hyfforddiant milfeddygaeth a nyrsio sydd nawr ar gael yn Aberystwyth.  Yn allweddol i'r ysgolion oedd gweld posibiliadau i fyfyrwyr ôl-16 ddechrau blaengynllunio er mwyn gallu elwa o'r cyrsiau hyn mewn addysg uwch wedi eu dyddiau ysgol, ond wedi i'r ysgolion a'r brifysgol feithrin llwybrau dysgu tuag at addysg uwch. Roedd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol yn gefnogol i'r cysyniad o ganolfan neu ganolfannau rhagoriaeth, gyda Choleg Ceredigion a HCT fel partneriaid yn ogystal.

## 6. Dadansoddi'r Egwyddorion

**E1. Dylid blaenoriaethu anghenion y dysgwr tros unrhyw anghenion sefydliadol.**

Yn gyffredinol, ni chafodd yr egwyddor hon ei gweithredu'n gyson ar draws y sir wrth wneud penderfyniadau ar y cynnig i'r dysgwr. O ganlyniad, mae rhai cyfleoedd wedi eu colli i greu partneriaethau sefydlog, dyfnach rhwng sefydliadau fyddai wedi caniatáu ehangu'r cynnig, cyfyngu ar y niferoedd o ddosbarthiadau anhyfyw[6] a lleihau problemau recriwtio. Lle bo dosbarthiadau mwy o ran niferoedd yn caniatáu rhedeg dosbarthiadau llai mewn pynciau eraill, dylai manteision strategol hynny gael eu hystyried yn ehangach nac o fewn un sefydliad. Mae Adroddiad Estyn ar Bartneriaethau ôl-16 (Ionawr 2021) yn cynnig arweiniad defnyddiol.

**E2. Dylid cynnal a gwella ymhellach y safonau cyffredinol uchel a welwyd yn ysgolion Ceredigion.**

Fel a nodwyd eisoes, mae canlyniadau asesiadau allanol ôl-16 ysgolion Ceredigion yn gyffredinol gadarn ac mae yma staff gweithgar a brwdfrydig sydd yn cael eu harwain yn dda gan eu penaethiaid a gan lywodraethwyr ymrwymedig. Mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth symud ymlaen.

**E3. Dylid sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr ar draws y sir o ran y cynnig, y cyngor ac arweiniad, gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu a'r mynediad at gefnogaeth.**

Ar hyn o bryd mae'r cynnig, yn ogystal â'r cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i'r dysgwyr, yn or-ddibynnol ar y sefydliad y maent wedi eu cofrestru ynddo. Mae angen gwell cysondeb ar draws y sir nid yn unig o ran y cyrsiau a gynigir ond hefyd y dull dysgu (wyneb yn wyneb, rhithiol, cyfunol, e-sgol, ayyb). Lle mae darpariaeth rithiol neu e-sgol, mae angen cysondeb hefyd o ran y gefnogaeth a gynigir y tu hwnt i'r gwersi arferol.

---

[6] Ystyrir dosbarth hyfyw i fod yn 12 dysgwr. Yn fras, dyma'r nifer o ddysgwyr sy'n denu cyllid ôl-16 digonol yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru er mwyn fod yn gynaliadwy heb orfod tynnu ar gyllid a ddirprwyir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer addysg 11-16 oed.

**E4. Dylid cryfhau'r cynnig yn y Gymraeg i fod o leiaf yn gyson â'r cynnig yn y Saesneg.**

Ar hyn o bryd mae diffygion mawr yn y cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, mae dilyniant ieithyddol yn wan ac mae rhai sefydliadau yn nodi anawsterau recriwtio mewn meysydd arbenigol. O ystyried amcanion Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Ceredigion mae hyn angen sylw cadarn a buan.

**E5. Dylid cynyddu'r ffocws ar y cynnig galwedigaethol.**

Gydag oddeutu 40% o gohort B11 Ceredigion yn gadael yr ysgol yn 16 oed mae angen i'r partneriaid roi sylw mwy gofalus i'r cynnig galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau, ar draws y sir. Mae anghenion yr economi leol a'r galw am sgiliau penodol wedi eu hadnabod o fewn cynlluniau'r Fargen Dwf a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn adeiladu ar hyn ac yn sail i gynllunio llwybrau dysgu sy'n datblygu sgiliau i gyd-fynd â gofynion cyflogwyr lleol a thu hwnt.

**E6. Dylid sicrhau bod llywodraethiant y ddarpariaeth ôl-16 yn hyrwyddo'r egwyddorion uchod, yn ystyried prosesau gwella ansawdd strategol, yn sicrhau bod gwariant yn cael ei gadw oddi mewn i'r gyllideb ôl-16 ac yn caniatáu gwneud penderfyniadau sydd yn rhoi ystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol.**

Ar hyn o bryd mae natur y trefniadau llywodraethol yn golygu bod y ffocws bennaf ar y cynnig o fewn un sefydliad yn hytrach nag edrych yn fwy strategol ar draws y sir a, lle bo angen, tu hwnt. Ym mhob ysgol heblaw Penglais, mae dros 80% o'r cyrsiau ôl-16 yn anhyfyw (gweler y tabl yn adran 5i). Canlyniad hyn yw'r angen i dynnu cyllid o'r hyn sydd wedi cael ei glustnodi gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer addysg 11-16 er mwyn rhoi sybsidi / cymhorthdal er mwyn cynnal addysg ôl-16.

## 7. Niferoedd y dysgwyr chweched dosbarth

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn darparu sail statudol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'n gorfodi darparwyr addysg 16-18 oed i ddatblygu cynnig cwricwlwm lleol gydag o leiaf 30 o gyrsiau'n opsiynau, gan gynnwys o leiaf pum cwrs cyffredinol a phum cwrs galwedigaethol. Dylai'r cynnig hwn fod ar y cyd â darparwyr ôl-16 eraill. Mae cyflwyno'r 30 opsiwn yn fwy o her i ysgolion sydd â chweched dosbarth bach. Mae hyn wedi arwain at bryderon ynghylch gallu ysgolion o'r fath i gyflwyno'r cwricwlwm mewn modd cost-effeithiol, gyda'r budd mwyaf posibl i ddysgwyr. Mae'r pryderon hyn yn cynyddu wrth geisio darparu cwricwlwm ôl-16 cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae niferoedd dysgwyr blwyddyn 12 o fewn chweched dosbarth ysgolion Ceredigion wedi gostwng o 535 yn 2014/15 i 390 yn 2020/21. Gweler mwy o fanylder yn Atodiad 11.3. Mae'r cyfraddau trosglwyddo yn amrywio rhwng ysgolion.

Yn anorfod, mae'r gostyngiad a ddisgrifir uchod yn niferoedd y dysgwyr wedi cael effaith negyddol ar y cyllid a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth ôl -16 yng Ngheredigion. Yn dilyn dwy flynedd sefydlog yn 2020/21 a 2021/22, ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 gwelwyd gostyngiad o dros £273k (7.05%) yn y cyllid, y gostyngiad uchaf o unrhyw awdurdod yng Nghymru. Nid yw'r rhagfynegiadau o ran niferoedd dysgwyr i'r dyfodol yn awgrymu y bydd y cyllid hwn yn cael ei ad-ennill yn fuan.

## 8. Y sefyllfa gyllidol

Mae cyllid i gynnal darpariaeth addysg ôl-16 yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant blynyddol.

Cyfanswm y grant yma ar gyfer 2023-24 oedd **£3,786,591**

Mae'r grant yma wedi ei ddyrannu yn unol â fformiwla sy'n cynnwys y canlynol:

- Niferoedd disgyblion: mae £4333 yn cael ei ddyrannu ar gyfer pob dysgwr ôl-16. Defnyddir data PLASC (Pupil Level Annual School Census) yn flynyddol ar sail gwir niferoedd dros y 2 flynedd flaenorol ac amcangyfrif o niferoedd trosglwyddo y flwyddyn gyfredol;
- Amddifadedd (cyfanswm o £16k sy'n cael ei ddyrannu i bob chweched dosbarth ar sail y niferoedd sy'n hawliau prydiau ysgol am ddim);
- Gwledigrwydd (sparsity) – cyfanswm o £332k; a
- Cyfrwng Cymraeg – cyfanswm o £186k

Wrth amcangyfrifo gwir gost cynnal chweched dosbarth mewn ysgol, ystyrir y costau canlynol:

- Costau addysgu (cost yr athro) wedi ei fodelu ar oriau dysgu + 15% CPA (Cynllunio, Paratoi, Asesu) a tybiaethau o gyflog yr athro wedi ei fodelu ar y brif raddfa gyflog + TLR1a er mwyn ystyried fod athrawon sy'n addysgu dosbarthiadau ôl-16 yn debygol o gario cyfrifoldebau ychwanegol TLR / CAD, rhai yn fwy na TLR1a a rhai yn llai.
- Cost pennaeth y chweched ar sail 30% o amserlen di-gyswllt
- Swyddog data ac arholiadau ar sail 0.5fte ar raddfa gyflog 8
- Cost arholiadau @£109.20 fesul cymhwyster cyfan
- Adnoddau addysgu: cyfanswm o £200 y disgybl (nid ar gyfer pob cwrs)
- Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (cymorth 1:1 ac ymyrraeth ychwanegol)
- Prydiau Ysgol am Ddim

Amcangyfrif o gost cynnal cyrsiau chweched dosbarth yn 2023-24 yw **£4,194,750, sef £408,519 yn fwy na'r grant chweched dosbarth**

O fodelu’r uchod ar sail costau is, sef 10% CPA a TLR 2c ar gyfer athrawon a 0.3fte ar gyfer y swyddog arholiadau, mae’r cyfanswm yn gostwng i **£3,946,208, sef £159,617 yn fwy na’r grant chweched dosbarth.**

Mae gan bob ysgol orbenion (overhead costs) a gellir cyfrifo rhain fesul disgybl fel sail i gyfrifo’r costau hyn ar gyfer disgyblion ôl-16. Mae’r costau hyn yn cynnwys egni (tanwydd yn bennaf), cynnal a chadw, glanhau, arweinyddiaeth, tîm gweinyddol, goruchwylwyr arholiadau (lle’n briodol) a Llyfrgellydd (lle’n briodol). Cyfanswm y gorbenion hyn ar gyfer ôl-16 yn ysgolion Ceredigion yw **£1,412,280.** Gwelir dadansoddiad o’r costau hyn yn Atodiad 11.5.3.

O’r uchod, mae’n glir nad yw’r grant Ôl-16 gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i gynnal darpariaeth ôl-16 ar ei ffurf bresennol yng Ngheredigion gan fod y gwariant rhwng **£1,571,897** a **£1,820,799** yn fwy na gwerth y grant.

Ar sail y tybiaethau uchod, mae pob ysgol ond un yng Ngheredigion yn gorfod defnyddio cyllid craidd 11-16 i wahanol raddau i gynnal eu chweched dosbarth. Ysgol Penglais yw’r eithriad, lle mae niferoedd gymharol fawr yn y chweched dosbarth yn caniatáu dosbarthiadau mwy hyfyw a darbodion maint (‘economies of scale’) i gynnal eu darpariaeth.


## 9. Opsiynau i'w hystyried

### Model ôl 16 posib

**Status Quo** cynnal y sefyllfa gyfredol
a. 6 safle ysgol
b. Cynnal a chefnogi'r cydweithio presennol
c. Cynnal a chefnogi'r ddarpariaeth e-sgol

**Arbenigo Rhannol ar draws 6 (neu 5/4) safle**
a. Cyrsiau hyfyw i'w darparu ar bob safle
b. Safleoedd i arbenigo mewn cyrsiau/rhannau o gyrsiau lleiafrifol fydd yn cael eu darparu i'r bartneriaeth
c. Cynyddu a chefnogi'r cydweithio
d. Cynyddu a chefnogi'r ddarpariaeth e-sgol

**Arbenigo Llawn ar 1 safle**
a. Holl gyrsiau hyfyw i'w darparu ar 1 safle
b. Defnydd o e-sgol i ehangu'r ddarpariaeth




**Status Quo +** datblygu'r sefyllfa gyfredol
a. 6 (neu 5/4) safle ysgol
b. Cynyddu a chefnogi'r cydweithio presennol
c. Cynyddu a chefnogi'r ddarpariaeth e-sgol

**Arbenigo Llawn ar draws 3 (neu 2) safle** (gyda'r posibilrwydd o greu un sefydliad ar draws 2 neu 3 safle)
a. Cyrsiau hyfyw i'w darparu ar bob safle
b. Safleoedd i arbenigo mewn cyrsiau/rhannau o gyrsiau lleiafrifol fydd yn cael eu darparu i'r bartneriaeth
c. Cynyddu a chefnogi'r cydweithio
d. Cynyddu a chefnogi'r ddarpariaeth e-sgol

Ar y pegwn dde, sef yr uchafswm newid, gellir cyfuno'r ddarpariaeth ôl-16 gyda phartneriaid eraill megis Hyfforddiant Ceredigion a Choleg Ceredigion. (Mae Coleg Ceredigion yn rhan o gwmni Coleg Sir Gâr Cyf o fewn Grŵp Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ac nid yw'n dod dan reolaeth Cyngor Sir Ceredigion.) Yn ogystal, cydnabyddir y gellid gweithio ar y cyd i wahanol raddau gyda'r coleg a HCT fel rhan o'r opsiynau eraill.

## 10.Ystyriaeth o'r gwahanol opsiynau yng nghyd-destun yr egwyddorion

Bwriad yr adran hon yw ystyried opsiynau ar sail yr hyn a nodwyd yn adran 9 yn eu tro ac ystyried potensial pob un i fodloni'r egwyddorion o adran 6. Gwneir hyn trwy edrych ar fanteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau yn nghyd-destun yr egwyddorion.

### OPSIWN 1 - Cynnal y Sefyllfa Gyfredol

**Disgrifiad o'r Opsiwn**

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r sefyllfa bresennol yng Ngheredigion yn aros yr un fath. Byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau ar y 6 safle presennol. Byddai'r Awdurdod Lleol yn parhau i gynnal, datblygu a chefnogi'r trefniadau cydweithio presennol rhwng yr ysgolion a gyda phartneriaid. Byddai hynny yn cynnwys y ddarpariaeth e-sgol. Byddai cytundebau partneriaeth ffurfiol yn eu lle gan gynnwys e-sgol. Byddai'r 6 Bwrdd Llywodraethol presennol yn parhau efo'u rolau presennol o ran llywodraethiant ôl-16.

| Manteision Opsiwn 1 | Anfanteision Opsiwn 1 |
|---|---|
| 1. Hwn yw'r opsiwn sydd yn creu'r newid lleiaf o fewn trefniadaeth ôl-16 Ceredigion. Byddai'n bodloni dyheadau'r dysgwyr hynny sydd yn awyddus i weld y trefniadau chweched dosbarth presennol yn aros fel ag y maent.<br>2. Yn y tymor byr, o leiaf, ni fyddai staff ac undebau yn gweld yr opsiwn hwn fel un fyddai'n bygwth diogelwch eu swyddi a thrwy hynny greu ansicrwydd yn yr ysgolion. | 1. Yn y gorffennol, ni chafodd anghenion y dysgwyr eu blaenoriaethu yn gyson ar draws y sir wrth wneud penderfyniadau ar y cynnig iddynt. O ganlyniad, mae rhai cyfleoedd strategol wedi eu colli i greu partneriaethau sefydlog, dyfnach rhwng ysgolion. Byddai hyn wedi caniatáu ehangu'r cynnig, cyfyngu ar y niferoedd o ddosbarthiadau anhyfyw a lleihau problemau recriwtio. Lle bo dosbarthiadau mwy o ran niferoedd yn caniatáu rhedeg dosbarthiadau llai mewn pynciau eraill, ni chafodd |

| | |
|---|---|
| | manteision strategol hynny eu hystyried yn llawn y tu hwnt i un sefydliad.<br>2. Nid yw'r trefniadau presennol gyda phartneriaid y tu hwnt i'r ysgolion ar gyfer cynllunio cwricwlwm nac ar gyfer monitro a gwella safonau yn foddhaol.<br>3. Mae diffygion mawr yn y cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, mae dilyniant ieithyddol yn wan ac mae rhai sefydliadau yn nodi anawsterau recriwtio mewn meysydd arbenigol.<br>4. Nid yw'r trefniadau presennol yn mynd i'r afael yn effeithiol efo'r heriau cyllidol sylweddol sydd yn wynebu'r awdurdod a'r ysgolion a bydd ysgolion yn parhau i ddibynnu ar gyllid 11-16 i roi sybsidi i gynnal addysg ôl-16.<br>5. Nid oes tegwch na chyfle cyfartal i bob dysgwr yn y sir o ran y cynnig, y gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu na'r mynediad at gefnogaeth. Mae hyn oll yn or-ddibynnol ar y sefydliad mae'r dysgwr wedi'i gofrestru ynddo. Nid oes cysondeb o ran y cyrsiau y gynigir na chwaith y dull dysgu (wyneb yn wyneb, rhithiol, cyfunol, e-sgol ayyb). Lle mae darpariaeth |

| | |
|---|---|
| | rithiol neu e-sgol mae angen cysondeb hefyd o ran y gefnogaeth a gynigir y tu hwnt i'r gwersi arferol.<br>6. Yn gyffredinol, mae'r cyngor a'r arweiniad a roddir i'r dysgwyr yn ffocysu yn ormodol ar y ddarpariaeth o fewn yr ysgol.<br>7. Er bod oddeutu 40% o gohort B11 Ceredigion yn gadael yr ysgol yn 16 oed nid yw'r cynnig galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau, wedi cael sylw dyledus ac nid yw'n ymateb i anghenion yr economi leol.<br>8. Mae'r trefniadau llywodraethiant presennol, yn arbennig y diffyg cytundebau partneriaethol strategol, yn arwain at wneud penderfyniadau nad ydynt, o reidrwydd, yn ystyried anghenion ehangach dysgwyr y sir.<br>9. Mae'r anfanteision uchod yn awgrymu y byddai trefniadau presennol ôl-16 Ceredigion yn gallu cael eu herio gan y CADY pan gaiff ei sefydlu yn 2023. |

## OPSIWN 2 – Datblygu'r Sefyllfa Gyfredol

**Disgrifiad o'r Opsiwn**

Byddai'r opsiwn hwn yn adeiladu ar y sefyllfa bresennol yng Ngheredigion. Yn y lle cyntaf, byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau ar y 6 safle presennol. Byddai'r 6 Bwrdd Llywodraethol presennol yn parhau efo'u rolau presennol o ran llywodraethiant hyd at 16 ond yn cytuno efo'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol fyddai yn rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill. Byddai'r Bwrdd Strategol yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Gweithredol er mwyn rhoi'r cynigion cwricwlaidd ar waith. Y Bwrdd Strategol fyddai'n gyfrifol am fonitro ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Lleol a'r darparwyr ar gyfer gwella. Dros amser, gallai'r argymhellion hyn gynnwys addasu nifer y safleoedd a'r hyn a ddarperir ar bob safle. Byddai pob darparwr yn cael ei gynrychioli ar y ddau fwrdd, gyda chynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol a lle priodol i lais y dysgwr a rhieni.

| **Manteision Opsiwn 2** | **Anfanteision Opsiwn 2** |
|---|---|
| 1 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn ansefydlogi trefniadaeth bresennol ôl-16 Ceredigion yn y tymor byr a felly yn debygol o fodloni dyheadau'r dysgwyr hynny sydd yn awyddus i weld y trefniadau chweched dosbarth presennol yn aros fel ag y maent.<br>2 Tra'n cydnabod yr angen am drosolwg strategol, byddai'r drefn a arweiniodd at y safonau ôl-16 cyffredinol uchel yn ysgolion Ceredigion yn aros. Fel gydag Opsiwn 1, mae'n debygol y byddai | 1. Mae arafwch y datblygiadau partneriaethol hyd yma (hyd yn oed gyda bwrdd strategol wedi bod yn ei le) yn awgrymu na fyddai parhau ar y llwybr hwn yn cynnig y gwelliannau yn ddigon cyflym nac i'r graddau angenrheidiol.<br>2. Byddai ildio cyfrifoldebau ôl-16 yn i Fwrdd Strategol yn gam y byddai, o bosib, yn cael ei wrthwynebu gan rai llywodraethwyr.<br>3. Efallai na fyddai'r Bwrdd yn gallu gweithredu ar y cyflymder |

| | |
|---|---|
| hyn yn cael ei weld fel cefnogi ymdrechion a llwyddiannau staff a llywodraethwyr ysgol, dysgwyr a'u rhieni.<br>3 Yn y tymor byr, o leiaf, ni fyddai staff ac undebau yn gweld yr opsiwn hwn fel un fyddai'n bygwth diogelwch eu swyddi a thrwy hynny greu ansicrwydd yn yr ysgolion.<br>4 Byddai ffurfio Bwrdd Strategol yn cynnig strwythur ar gyfer caniatáu blaenoriaethu anghenion y dysgwyr ar draws y sir wrth wneud penderfyniadau ar y cynnig iddynt. Byddai hyn yn gallu arwain at greu partneriaethau sefydlog, dyfnach rhwng ysgolion a darparwyr eraill, ehangu'r cynnig, cyfyngu ar y niferoedd o ddosbarthiadau anhyfyw a lleihau problemau recriwtio.  Lle bo dosbarthiadau mwy o ran niferoedd yn caniatáu rhedeg dosbarthiadau llai mewn pynciau eraill, byddai'r Bwrdd yn gallu ystyried hynny ar draws y ddarpariaeth gyfan.<br>5 Byddai cyfrifoldeb ar y Bwrdd i ddatblygu trefniadau gyda phartneriaid y tu hwnt i'r ysgolion ar gyfer cynllunio cwricwlwm ac ar gyfer monitro a gwella safonau. | angenrheidiol i wneud newidiadau yn amserol.<br>4. Gallai drwgdybiaeth a thueddiad i warchod anghenion sefydliadau unigol danseilio gwaith y Bwrdd.<br>5. Efallai byddai'r Bwrdd yn cael trafferth dod i gytundeb ar wneud argymhellion mwy heriol ac felly yn methu mynd i'r afael yn effeithiol efo'r heriau cyllidol sylweddol sydd yn wynebu'r awdurdod a'r ysgolion.<br>6. Nid oes sicrwydd y byddai graddfa'r newid yn ôl y drefn hon yn ddigonol er mwyn cyrraedd pwynt lle mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn hunan-gynaliadwy (h.y. heb sybsidi oddiwrth cyllid 11-16). |

| | |
|---|---|
| 6. Un o rolau creiddiol y Bwrdd fyddai sicrhau gwelliant yn y cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â dyheadau ac amcanion Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Ceredigion.<br>7. Byddai cyfrifoldeb ar y Bwrdd i sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr yn y sir o ran y cynnig, y cyngor a'r arweiniad, y gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu a'r mynediad at gefnogaeth.<br>8. Byddai'r Bwrdd yn ystyried addasrwydd y cynnig galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau | |

## OPSIWN 3 – Darpariaeth mewn rhai ysgolion

### Disgrifiad o'r Opsiwn

Byddai'r opsiwn hwn yn ddatblygiad o Opsiwn 2 uchod. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 ar un neu fwy o safleoedd. Yna, megis yn Opsiwn 2, byddai'r Byrddau Llywodraethol hynny yn parhau efo'u rolau presennol o ran llywodraethiant tan oed 16 ac yn cytuno efo'r Awdurdod Lleol i ffurfio Bwrdd Strategol fyddai yn rheoli cyllideb ôl-16 yr Awdurdod, sicrhau trefniadau addas ar gyfer cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac yna comisiynu'r ddarpariaeth gan yr ysgolion, e-sgol a phartneriaid eraill. Byddai'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am fonitro ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Lleol a'r darparwyr ar gyfer gwella. Gallai'r argymhellion hyn gynnwys addasu nifer y safleoedd ymhellach. Byddai pob darparwr, gan gynnwys pob ysgol, yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd, gyda chynrychiolaeth o'r Awdurdod Lleol â lle priodol i lais y dysgwr a rhieni.

| Manteision Opsiwn 3 | Anfanteision Opsiwn 3 |
|---|---|
| 1 Byddai ffurfio ffederaliaeth ffurfiol yn cynnig strwythur ar gyfer caniatáu blaenoriaethu anghenion y dysgwyr ar draws y sir wrth wneud penderfyniadau ar y cynnig iddynt. Byddai hyn yn gallu arwain at greu partneriaethau sefydlog, dyfnach rhwng ysgolion a darparwyr eraill, ehangu'r cynnig, cyfyngu ar y niferoedd o ddosbarthiadau anhyfyw a lleihau problemau recriwtio. Lle bo dosbarthiadau mwy o ran niferoedd yn caniatáu rhedeg | 1 Byddai'r opsiwn hwn yn dechrau ansefydlogi trefniadaeth bresennol ôl-16 Ceredigion.<br>2 Byddai cau darpariaeth ôl-16 un neu fwy o ysgolion tra'n cadw eraill ar agor yn debygol o greu drwgdeimlad rhwng ardaloedd a'r canfyddiad bod rhai ardaloedd ar eu hennill ar draul ardaloedd eraill.<br>3 Gallai staff ac undebau weld yr opsiwn hwn fel un fyddai'n bygwth diogelwch eu swyddi a thrwy hynny greu ansicrwydd yn yr ysgolion. |

| | |
|---|---|
| dosbarthiadau llai mewn pynciau eraill, byddai'r Bwrdd yn gallu ystyried hynny ar draws y ddarpariaeth gyfan.<br>2 Byddai cyfrifoldeb ar y Bwrdd i ddatblygu trefniadau gyda phartneriaid y tu hwnt i'r ysgolion ar gyfer cynllunio cwricwlwm ac ar gyfer monitro a gwella safonau.<br>3 Un o rolau creiddiol y Bwrdd fyddai sicrhau gwelliant yn y cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â dyheadau ac amcanion Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Ceredigion.<br>4 Byddai cyfrifoldeb ar y Bwrdd i sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr yn y sir. Byddai hyn yn benodol o ran y cynnig, y cyngor a'r arweiniad, y gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu a'r mynediad at gefnogaeth. Byddai hyn yn cynnwys dysgwyr o ysgolion eraill lle na byddai darpariaeth ôl-16 o dan yr opsiwn hwn.<br>5 Byddai'r Bwrdd yn ystyried addasrwydd y cynnig | 4 Byddai disgwyliadau teithio yn debygol o gynyddu i staff a dysgwyr a thrwy hynny gynyddu costau a'r ôl-troed carbon.<br>5 Efallai na fyddai'r Bwrdd yn gallu gweithredu ar y cyflymder angenrheidiol i wneud newidiadau yn amserol.<br>6 Efallai byddai'r Bwrdd yn cael trafferth dod i gytundeb ar wneud argymhellion mwy anodd ac felly yn methu mynd i'r afael yn effeithiol efo'r heriau cyllidol sylweddol sydd yn wynebu'r awdurdod a'r ysgolion. |

| | |
|---|---|
| galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau. | |

## OPSIWN 4 – Un Ganolfan

**Disgrifiad o'r Opsiwn**

Byddai'r opsiwn hwn yn cynnig newid mwy pellgyrhaeddol. Byddai'n golygu cau'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol a sefydlu Canolfan Ragoriaeth, yn cynnwys ystod o bartneriaid, ar un neu fwy o safleoedd daearyddol addas. Byddai Corff Llywodraethol sydd yn annibynnol o'r ysgolion yn gyfrifol am y cyllid a'r cwricwlwm ac yn penodi nifer fechan o staff craidd ar gyfer llywio a rheoli'r gwaith.

| Manteision Opsiwn 4 | Anfanteision Opsiwn 4 |
|---|---|
| 1 Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu blaenoriaethu anghenion y dysgwyr ar draws y sir wrth wneud penderfyniadau ar y cynnig iddynt. Byddai hyn yn gallu arwain at greu partneriaethau sefydlog, dyfnach rhwng y ganolfan / canolfannau newydd a darparwyr eraill. Byddai hefyd yn ehangu'r cynnig a chyfyngu ar y niferoedd o ddosbarthiadau anhyfyw.<br>2 Byddai cyfrifoldeb ar y Corff Llywodraethol i ddatblygu trefniadau gyda phartneriaid y tu hwnt i'r ysgolion ar gyfer cynllunio cwricwlwm ac ar gyfer monitro a gwella safonau.<br>3 Byddai cyfrifoldeb clir ar y Corff Llywodraethol i sicrhau gwelliant | 1 Byddai'r opsiwn hwn yn ansefydlogi trefniadaeth bresennol ôl-16 Ceredigion. Gallai greu gwrthwynebiad lleol sylweddol.<br>2 Gallai staff ac undebau weld yr opsiwn hwn fel un fyddai'n bygwth diogelwch swyddi a morâl. Gallai hynny greu ansicrwydd sylweddol yn yr ysgolion.<br>3 Byddai disgwyliadau teithio yn cynyddu i staff a dysgwyr a thrwy hynny gynyddu costau a'r ôl-troed carbon.<br>4 Er bod cyfle cadarn yma i ddatblygu'r cwricwlwm yn y Gymraeg, nid oes sicrwydd y bydd ethos Gymraeg a Chymreig yr ysgolion yn cael ei gynnal yn y sefydliadau newydd. |

| | |
|---|---|
| yn y cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â dyheadau ac amcanion Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Ceredigion.<br>4 Byddai cyfrifoldeb a chyfle clir i sicrhau gwell tegwch a chyfle cyfartal i bob dysgwr yn y sir. Byddai hynny yn cynnwys y cynnig, y cyngor a'r arweiniad, y gofal bugeiliol a llesiant, y gofynion teithio, y dull dysgu a'r mynediad at gefnogaeth.<br>5 Byddai'r Corff Llywodraethol yn ystyried addasrwydd y cynnig galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaethau. O gyd-leoli darpariaeth ar un neu fwy o safleoedd, mae'r cyfle i fyfyrwyr gyfuno cyrsiau lefel A a galwedigaethol.<br>6 Byddai ffurfio un Corff Llywodraethol yn caniatáu gweithredu yn gyflymach na Opsiynau 2 a 3.<br>7 Byddai gwell cyfle gan un Corff Llywodraethol i ymateb i'r heriau cyllidol sylweddol sydd yn yr arfaeth.<br>8 Gan mai ond un Corff Llywodraethol sydd yn yr opsiwn | 5 Pe byddai'r Ganolfan Rhagoriaeth yn dilyn model comisiynu staff o ysgolion y Sir, efallai na fyddai'r ysgolion hynny yn blaenoriaethu anghenion ôl-16 wrth benodi. |

| | |
|---|---|
| hwn does dim cyfle i ysgolion unigol optio allan.<br>9 Profiad i fyfyrwyr mewn sefydliad mwy, boed yn gymdeithasol neu o ran profi bywyd tebycach i'r hyn fydd yn eu wynebu wrth symud ymlaen i Brifysgol.<br>10 Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu cyd-leoli gyda darparwyr fel Coleg Ceredigion / HCT er mwyn ehangu ar yr arlwy ymhellach a chaniatáu i ddysgwyr dilyn cyfuniadau gwahanol o gyrsiau. Byddai hyn hefyd yn debygol o gynyddu nifer y dysgwyr gyda manteision hynny yn cynnwys darparu ystod ehangach o gyrsiau a chyfleoedd allgyrsiol.<br>11 Heb orfod cynnal chweched dosbarth, byddai ysgolion yn rhydd i wario holl arian sy'n cael ei ddirprwyo gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer addysg 11-16 yn unol â bwriad sylfaenol y cyllid hwn. | |

## CRYNODEB O'R OPSIYNAU YN ERBYN YR EGWYDDORION

| Opsiwn | Egwyddor 1 | Egwyddor 2 | Egwyddor 3 | Egwyddor 4 | Egwyddor 5 | Egwyddor 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | |
| 2 | | | | | | |
| 3 | | | | | | |
| 4 | | | | | | |

| |
|---|
| Cwrdd i raddau helaeth |
| Cwrdd i ryw raddau |
| Cwrdd i raddau llai |
| Cwrdd i raddau isel |


## Diolchiadau

Dymunir diolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i gynorthwyo'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad hwn. Diolch i benaethiaid, staff a llywodraethwyr yr ysgolion, i Goleg Ceredigion a Hyfforddiant Ceredigion Training, i'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac i'r dysgwyr, rhieni a'r cyflogwyr fu mor barod eu hymatebion i'r holiadur. Diolch arbennig i staff Cygnor Ceredigion am eu cefnogaeth gydol yr amser.

## 11. Atodiadiadau

## 11.1 – Crynodeb o'r Holiaduron

**Rhieni dysgwyr oed cynradd**

- **Dewis eang** – nifer mawr wedi nodi'r angen am ddewis cyfoethog o bynciau gydag ansawdd dysgu uchel. Nodwyd yr angen am gwricwlwm i fwrw anghenion ystod lawn o ddysgwyr galwedigaethol, prentisiaethau, ADY.
- **Iaith** – Roedd agweddau yma yn ymestyn ar hyd continwwm llawn. O sicrhau llwybrau iaith Gymraeg ymhob pwnc trwy bob cyfnod allweddol i beidio dysgu trwy'r Gymraeg yn bynciol gan nad yw'n paratoi'r dysgwyr ar gyfer eu dyfodol yn addysg bellach a'r gweithle.
- **Lleol** – Barn nifer oedd y dylai addysg ôl 16 aros yn lleol o fewn yr ysgolion
- **Llwybrau i'r byd gwaith, profiad gwaith** – nifer yn nodi'r angen am gwricwlwm oedd yn datblygu'r sgiliau ar gyfer gweithlu Ceredigion. Addysg byd gwaith cynnar er mwyn ennyn diddordeb a pharatoi'r dysgwyr a'u rhoi ar y llwybrau cywir.
- **Cydweithio rhwng ysgolion neu sefydlu canolfannau rhagori** – Enwyd Aberystwyth ac Aberteifi fel canolfannau rhagori gan rai. Ymuno 6ed dosbarth ysgolion Aberystwyth oedd dymuniad arall tra cyfuno amserlenni a chaniatáu i staff i deithio o ysgol i ysgol oedd cynnig pellach.

**Rhieni dysgwyr Bl7-11**

- **Dewis eang –** ar draws cyrsiau traddodiadol, galwedigaethol, prentisiaethau a dysgwyr ADY
- **Lleol –** Barn nifer oedd y dylai addysg ôl 16 aros yn lleol o fewn yr ysgolion gan gynnwys sawl un yn nodi ail agor Henry Richard. Pwysigrwydd 6ed o fewn ysgol yn cael ei nodi a'r angen i deithio o hyd y Sir am gyrsiau Coleg
- **Cydweithio rhwng ysgolion neu sefydlu canolfannau rhagori –** Ysgolion Aberystwyth yn cael ei nodi gan ambell un fel cyfle i gyfuno, eraill yn nodi 1 Ganolfan yn y Sir ar gyfer pob darpariaeth.
- **Cysylltiadau byd gwaith –** Profiadau yn y byd gwaith er mwyn helpu gyda dewisiadau yn enwedig gyda chyrsiau galwedigaethol. Datblygu cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr er mwyn adeiladu'r sgiliau angenrheidiol hefyd yn cael ei nodi
- **Iaith –** y gallu i ddysgu trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg wedi nodi gan nifer,

**Rhieni dysgwyr CA5**

- **Arlwy** – dewis yn gyfyng, angen mwy galwedigaethol a'n plethu at natur amaethyddol y Sir, prentisiaethau.
- **Lleol –** Teimlad nifer oedd bod buddion mawr i gael aros yn yr un sefydliad o ran dyhead, ethos, iechyd meddwl a thrafnidiaeth
- **Creu 1 Coleg neu ddatblygu ac ychwanegu at yr hyn sydd gennym –** Arbenigedd staff, mwy o ddewis, hyblygrwydd, paratoi dysgwyr at addysg bellach, chwalu'r ymdeimlad o Goleg v Ysgol a Safon Uwch v Galwedigaethol
- **Cyngor am y gweithle a phrofiad gwaith –** Datblygu'r ddealltwriaeth cyn 16 er mwyn gwneud dewisiadau ystyrlon.

**Rhieni dysgwyr ôl 18**

- **Arlwy –** Cynyddu'r arlwy ar draws pob math o gymhwyster oedd y brif thema gyda'r mwyafrif yn nodi hyn
- **Datblygu canolfan/coleg –** ambell un yn nodi hyn fel ffordd o gael gwell arlwy a darpariaeth o safon uwch gydag arbenigedd pynciol
- **Cadw addysg ôl 18 yn lleol –** ambell un y mynegi mai dyma'r ffordd ymlaen

**Dysgwyr bl 7 a 8**

- **Dewis eang -** opsiynau i gyd fynd a diddordebau'r dysgwyr
- **Lleol –** aros yn ei ysgol a ddim am deithio' bell
- **Iaith –** dewis yr iaith maent yn astudio trwy
- **Coleg –** Rhywle canolig i bawb
- **Profiad gwaith**

**Dysgwyr bl 9 -11**

- **Dewis eang –** cydraddoldeb, amrywiaeth, ymarferol, galwedigaethol, ADY
- **Athrawon da –** Arbenigwyr, wyneb i wyneb, cefnogol, nabod y dysgwr, cyngor da am opsiynau ôl 16
- **Lleol –** cymysgedd yma o aros yn eu hysgol bresennol i Golegau mwy lleol
- **Iaith –** y gallu i astudio yn iaith o'u dewis, y gallu i ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg
- **Cyfleusterau –** Dysgu, cyfrifiaduron, chwaraeon, ymlacio

**Dysgwyr 12 -13**

- **Dewis eang** – Tu hwnt i bynciau traddodiadol, cael gwared â'r Bac, prentisiaethau
- **Cyngor da –** wrth bontio i CA5, codi ymwybyddiaeth o swyddi a chyfleoedd tu hwnt i'r arlwy traddodiadol
- **Iaith** – astudio yn eu hiaith ddewisol a pharhad o CA4 i 5

**Dysgwyr ôl-18**

- **Lleol** – gweld teithio fel rhwystr
- **Arlwy –** Mwy o opsiynau yn enwedig yn unol â'r newidiadau technoleg yn y byd
- **Dosbarthiadau bach –** nifer yn codi bod canlyniadau da wedi dod fel canlyniad i hyn

## 11.2

## Pynciau Safon Uwch

| Data Arholiadau Bl13 Haf 2022 | Aberaeron | | Aberteifi | | Penglais | | Penweddig | | Bro Pedr | | Bro Teifi | | Ceredigion | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Summer 2022 Y13 Exams Data | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Art and Design | - | 8 | - | 4 | - | 7 | 1 | 3 | 1 | 4 | 6 | - | **8** | **26** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Biology | - | 5 | - | 9 | - | 34 | 6 | 3 | - | 15 | - | 9 | **6** | **75** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Business | - | - | - | - | - | - | 8 | - | - | - | - | - | **8** | **-** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Chemistry | - | 3 | - | 15 | - | 32 | 4 | 1 | - | 11 | - | 6 | **4** | **68** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Design and Technology | - | - | - | 2 | - | 16 | 4 | - | - | 10 | - | - | **4** | **28** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Drama and Theatre | - | - | - | - | - | 2 | 5 | - | - | - | 1 | - | **6** | **2** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in English Language and Literature | - | - | - | 8 | - | - | - | - | - | - | - | 7 | **-** | **15** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in English Literature | - | 9 | - | - | - | 14 | - | 13 | - | 6 | - | - | **-** | **42** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in French | - | - | - | 1 | - | 2 | 2 | - | - | 1 | - | - | **2** | **4** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Further Mathematics | - | 1 | - | 2 | - | 1 | 1 | 1 | - | 2 | - | - | **1** | **7** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Geography | 1 | 5 | - | 6 | - | 19 | 8 | - | 7 | 4 | 6 | - | **22** | **34** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Health and Social Care, and Childcare | - | 8 | - | 3 | - | 11 | 4 | - | - | 8 | 6 | - | **10** | **30** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in History | - | 7 | - | 4 | - | 26 | 8 | - | 2 | 17 | 6 | - | **16** | **54** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in ICT | - | - | - | - | - | 4 | 5 | - | - | - | 7 | - | **12** | **4** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Mathematics | - | 4 | - | 9 | - | 24 | 3 | 5 | 1 | 9 | 6 | - | **10** | **51** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Media Studies | - | 7 | - | - | - | 23 | - | - | - | - | 2 | - | **2** | **30** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Music | - | - | - | 2 | - | 9 | - | - | - | - | - | - | **-** | **11** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Physical Education | - | - | - | - | - | 11 | 6 | - | - | 10 | - | - | **6** | **21** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Physics | - | 5 | - | 6 | - | 13 | 3 | 8 | - | 6 | - | 7 | **3** | **45** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Psychology | - | - | - | 13 | - | 36 | - | - | - | - | 3 | - | **3** | **49** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Religious Studies | - | - | - | 8 | - | - | 3 | - | - | 6 | - | - | **3** | **14** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Sociology | - | - | - | - | - | 23 | - | - | - | 16 | - | - | **-** | **39** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Spanish | - | - | - | - | - | 5 | - | - | - | - | - | - | **-** | **5** |
| WJEC Level 3 Advanced GCE in Welsh First Language | - | - | - | - | - | - | 3 | - | 6 | - | 3 | - | **12** | **-** |
| WJEC Eduqas Level 3 Advanced GCE in Electronics | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 4 | **-** | **4** |
| AQA Level 3 Advanced GCE in French | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | **-** | **1** |
| AQA Level 3 Advanced GCE in Polish | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 3 | - | - | **-** | **3** |
| OCR Level 3 Advanced GCE in Classical Greek | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | **-** | **1** |
| OCR Level 3 Advanced GCE in Computer Science | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **-** | **1** |
| OCR Level 3 Advanced GCE in Latin | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | **-** | **1** |
| WJEC Advanced Welsh Baccalaureate | 35 | | 35 | | 115 | | 38 | | 57 | | 37 | | **317** | |

## Pynciau Galwedigaethol

| Data Arholiadau Bl13 Haf 2022 | Aberaeron | | Aberteifi | | Penglais | | Penweddig | | Bro Pedr | | Bro Teifi | | Ceredigion | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Summer 2022 Y13 Exams Data | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG | CYM | ENG |
| WJEC Level 3 Applied Diploma in Criminology | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | **2** | **-** |
| WJEC Level 3 Certificate in Criminology | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | **2** | **-** |
| WJEC Level 3 Certificate in Food Science and Nutrition | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **1** |
| WJEC Level 3 Certificate in Medical Science | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **-** | **1** |
| WJEC Level 3 Diploma in Food Science and Nutrition | - | - | - | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **4** |
| WJEC Level 3 Diploma in Medical Science | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 6 | **-** | **6** |
| Pearson BTEC Level 3 Certificate in Art and Design | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | - | **-** | **2** |
| Pearson BTEC Level 3 Certificate in Business | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | **-** | **1** |
| Pearson BTEC Level 3 Certificate in Travel and Tourism | - | - | - | - | - | 3 | - | - | - | - | - | - | **-** | **3** |
| Pearson BTEC Level 3 National Extended Certificate in Sport | - | 5 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **5** |
| Pearson BTEC Level 3 National Extended Certificate in Sport and Fitness | - | - | - | 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **3** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Agriculture | - | - | - | - | - | - | - | 2 | - | - | - | - | **-** | **2** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Art and Design | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | **-** | **1** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Blacksmithing and Metalworking | - | - | - | - | - | - | - | 3 | - | - | - | - | **-** | **3** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Business | - | 2 | - | - | - | 11 | - | - | - | 20 | - | 9 | **-** | **42** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Engineering | - | 4 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **4** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Public Services | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 7 | - | - | **-** | **7** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Sport | - | - | - | - | - | - | - | 3 | - | - | - | 4 | **-** | **7** |
| Pearson BTEC Level 3 Subsidiary Diploma in Travel and Tourism | - | - | - | - | - | 12 | - | - | - | - | - | - | **-** | **12** |
| OCR Level 3 Cambridge Technical Introductory Diploma in IT | - | 6 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **6** |

## 11.3 Cyfraddau Trosglwyddo

**Canrannau Trosglwyddo i'r 6ed (PLASC)**

### Aberaeron

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 64 | 58 | 59 | 56 | 51 | 53 | 48 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *78%* | *74%* | *89%* | *91%* | *102%* | *102%* |
| | *Bl11* | · | · | *49%* | *60%* | *65%* | *60%* | *60%* |
| | Bl12 | 74 | 80 | 63 | 56 | 52 | 47 | 46 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *66%* | *68%* | *71%* | *58%* | *59%* | *47%* |
| | Bl11 | 121 | 93 | 79 | 89 | 80 | 97 | 96 |

### Aberteifi

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 42 | 62 | 31 | 40 | 40 | 26 | 33 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *111%* | *89%* | *75%* | *75%* | *74%* | *89%* |
| | *Bl11* | · | · | *39%* | *49%* | *40%* | *30%* | *31%* |
| | Bl12 | 56 | 35 | 53 | 53 | 35 | 37 | 43 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *44%* | *65%* | *54%* | *40%* | *35%* | *36%* |
| | Bl11 | 79 | 82 | 99 | 88 | 105 | 121 | 101 |

### Penglais

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 151 | 144 | 139 | 96 | 105 | 86 | 119 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *84%* | *84%* | *66%* | *70%* | *70%* | *93%* |
| | *Bl11* | · | · | *70%* | *49%* | *58%* | *53%* | *60%* |
| | Bl12 | 172 | 166 | 145 | 151 | 122 | 128 | 142 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *83%* | *74%* | *84%* | *75%* | *64%* | *75%* |
| | Bl11 | 199 | 195 | 180 | 162 | 200 | 190 | 184 |

### Penweddig

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 63 | 77 | 55 | 62 | 60 | 45 | 49 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *91%* | *92%* | *87%* | *95%* | *80%* | *92%* |
| | *Bl11* | · | · | *67%* | *63%* | *67%* | *51%* | *62%* |
| | Bl12 | 85 | 60 | 71 | 63 | 56 | 53 | 41 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *73%* | *72%* | *70%* | *64%* | *67%* | *45%* |
| | Bl11 | 82 | 98 | 90 | 88 | 79 | 92 | 97 |

### Bro Pedr

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 66 | 74 | 77 | 63 | 68 | 64 | 71 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *78%* | *84%* | *85%* | *96%* | *96%* | *91%* |
| | *Bl11* | · | · | *72%* | *53%* | *68%* | *59%* | *62%* |
| | Bl12 | 95 | 92 | 74 | 71 | 67 | 78 | 72 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *86%* | *62%* | *71%* | *62%* | *68%* | *73%* |
| | Bl11 | 107 | 119 | 100 | 108 | 114 | 98 | 109 |

### Henry Richard

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | · | · | · | · | · | · | · |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | · | · | · | · | · | · |
| | *Bl11* | · | · | · | · | · | · | · |
| | Bl12 | · | · | · | · | · | · | · |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | · | · | · | · | · | · |
| | Bl11 | 56 | 32 | 36 | 30 | 43 | 43 | 29 |

### Bro Teifi

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 47 | 46 | 48 | 41 | 58 | 34 | 47 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *87%* | *92%* | *95%* | *89%* | *85%* | *94%* |
| | *Bl11* | · | · | *56%* | *63%* | *81%* | *59%* | *56%* |
| | Bl12 | 53 | 52 | 43 | 65 | 40 | 50 | 46 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *61%* | *66%* | *90%* | *69%* | *60%* | *59%* |
| | Bl11 | 85 | 65 | 72 | 58 | 84 | 78 | 88 |

### Ceredigion

| | | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl13 | 448 | 461 | 409 | 358 | 382 | 308 | 367 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl12* | · | *86%* | *84%* | *80%* | *83%* | *83%* | *93%* |
| | *Bl11* | · | · | *56%* | *51%* | *58%* | *49%* | *52%* |
| | Bl12 | 535 | 485 | 449 | 459 | 372 | 393 | 390 |
| *Cyfraddau cynnal o...* | *Bl11* | · | *66%* | *64%* | *69%* | *59%* | *55%* | *54%* |
| | Bl11 | 736 | 698 | 662 | 631 | 711 | 728 | 709 |

## 11.4 Cyrsiau a gynigir gan Goleg Ceredigion

| *Cwrs* | *Lefel* | *Lleoliad* |
|---|---|---|
| Celf | Sylfaen/3 | Aberystwyth |
| Celfyddydau Creadigol | 2 | Aberystwyth |
| Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn | 1/2/3 | Aberteifi |
| Gwasanaethau Cyhoeddus | 2 | Aberystwyth |
| Busnes | 3 | Aberystwyth |
| Cyfrifyddu | AAT | Aberystwyth |
| Gwasanaethau Cyhoeddus | 3 | Aberystwyth |
| Adeiladu | 2 | Aberteifi |
| Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu | 2 | Aberteifi |
| Crefftau Adeiladu | Prentisiaeth Lefel 3 | Aberteifi |
| Sgiliau Crefftau Adeiladu | 1 | Aberteifi |
| Gwaith Brics | 3 | Aberteifi |
| Gwaith Saer ac Asiedydd | 1/2 | Aberteifi |
| Gwaith Brics | 2 | Aberteifi |
| Dodrefn | 2/3 | Aberteifi |
| ESOL | | Aberystwyth |
| Astudiaethau Galwedigaethol | Diploma Rhagarweiniol | Aberteifi |
| Galwedigaethol | Mynediad | Aberystwyth |
| Trin Gwallt | Tystysgrif/1/2/3 | Aberteifi |
| Therapi Harddwch | 2/3 | Aberteifi |
| Harddwch | 1 | Aberteifi |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: | 5 | Aberystwyth |
| Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 2 | Aberystwyth |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 3 | Aberystwyth |
| Iechyd a Gofal Cymndeithasol y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | 1 | Aberystwyth |
| Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 3 | Aberystwyth |
| Gwyddor Iechyd | Diploma Mynediad Addysg Uwch | Aberteifi |
| Goruchwylio Gweini bwyd a diod a Diploma Coginio Porffesiynol Paratoi a Choginio | 1/2/3 | Aberystwyth |
| Goruchwylio Gweini bwyd a diod a Diploma Coginio Porffesiynol Paratoi a Choginio | 1/2/3 | Aberteifi |
| TGCh | 2/3 | Aberteifi |
| Cyfryngau Rhyngweithiol Creadigol | 2 | Aberystwyth |
| Cynhyrchu yn y Cyfryngau Creadigol | 3 | Aberystwyth |
| Gofal Anifeiliaid | 1/2/3 | Aberystwyth |
| Cyflwyniad i Ymddygiad Anfeiliaid | Mynediad | Aberystwyth |
| Celfyddydau Perfformio | 3 | Aberystwyth |
| Celfyddydau Creadigol | 2 | Aberystwyth |
| Chwaraeon | 2 | Aberteifi |
| Chwaraeon a Gweithgareddau Awyr Agored | 3 | Aberteifi |

## 11.5 Amcangyfrifon o gostau ôl-16

### 11.5.1 Costau darparu cyrsiau ôl-16 2023-24(Model 1)

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | **Aberaeron** | **Aberteifi** | **Penglais** | **Penweddig** | **Bro Pedr** | **Bro Teifi** | **TOTAL** | **Notes** |
| 2 | *No of pupils* | *81* | *66* | *221* | *106* | *127* | *101* | ***702*** | |
| 3 | | | | | | | | | |
| 4 | Teaching costs | 370,478 | 344,016 | 683,347 | 511,869 | 549,102 | 447,697 | **2,906,508** | UPS3 + TLR1a, and Includes 15% PPA plus extra |
| 5 | Coleg Ceredigion | | 42,642 | | | | | **42,642** | Aberteifi Uwch |
| 6 | Head of 6th form 30% non contact time | 25,801 | 25,801 | 25,801 | 25,801 | 25,801 | 25,801 | **154,807** | UPS3 + TLR1a, and Includes 15% PPA plus extra, @ 30% for 6 schools |
| 7 | Data & Examinations officer 50% Gr8 | 17,111 | 17,111 | 17,111 | 17,111 | 17,111 | 17,111 | **102,666** | 0.50 FTE Grade 8 |
| 8 | Exam costs @ £109.20 per exam | 16,052 | 9,500 | 37,674 | 16,708 | 18,346 | 17,363 | **115,643** | 353 pupils @ £109.20 per A level |
| 9 | Capitation (Teaching materials) | 16,200 | 13,200 | 44,200 | 21,200 | 25,400 | 20,200 | **140,400** | 702 pupils @ £200 |
| 10 | SEN 1:1 Support | 153,930 | 68,023 | 161,589 | 59,385 | 138,666 | | **581,593** | Not included TA3 - 3 in Units. TA2 - 4 in units |
| 11 | SEN - Extra intervention | 4,928 | 3,584 | 4,032 | 2,240 | 6,272 | 3,584 | **24,640** | 55 @ £448 |
| 12 | Free School Meals | 23,492 | 18,458 | 26,848 | 13,424 | 30,204 | 13,424 | **125,850** | 75 @ £1678 |
| 13 | **TOTAL** | **627,993** | **542,335** | **1,000,602** | **667,738** | **810,902** | **545,180** | **4,194,750** | |
| 14 | | | | | | | | | |
| 15 | Grant available 23/24 (excl 3% admin) | 475,634 | 409,782 | 1,081,969 | 582,245 | 675,809 | 561,152 | **3,786,591** | |
| 16 | | | | | | | | | |
| 17 | **Variance** | **- 152,359** | **- 132,553** | **81,367** | **- 85,493** | **- 135,093** | **15,972** | **- 408,159** | |
| 18 | | | | | | | | | |
| 19 | | | | | | | | | |
| 20 | **ASSUMPTIONS** | | | | | | | | |
| 21 | Teacher cost based on teacher at top of scale,plus TLR1a, plus 15% non contact time | | | | | | | | |
| 22 | Head of 6th form, assumed extra 30% non contact time | | | | | | | | |
| 23 | Data & Exam officer - based on 50% of a Gr8 post | | | | | | | | |
| 24 | Teaching materials @ £200 per pupil | | | | | | | | |

### 11.5.2 Costau darparu cyrsiau ôl-16 2023-24 (Model 2)

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | **Aberaeron** | **Aberteifi** | **Penglais** | **Penweddig** | **Bro Pedr** | **Bro Teifi** | **TOTAL** | **Notes** |
| 2 | *No of pupils* | *81* | *66* | *221* | *106* | *127* | *101* | ***702*** | |
| 3 | | | | | | | | | |
| 4 | Teaching costs | 345,315 | 320,650 | 636,934 | 477,103 | 511,807 | 417,289 | **2,709,098** | UPS3 + TLR2c, and Includes 10% PPA plus extra |
| 5 | Coleg Ceredigion | | 42,642 | | | | | **42,642** | Aberteifi Uwch |
| 6 | Head of 6th form 30% non contact time | 24,049 | 24,049 | 24,049 | 24,049 | 24,049 | 24,049 | **144,293** | UPS3 + TLR1a, and Includes 15% PPA plus extra, @ 30% for 6 schools |
| 7 | Data & Examinations officer 30% Gr8 | 10,267 | 10,267 | 10,267 | 10,267 | 10,267 | 10,267 | **61,600** | 0.30 FTE Grade 8 |
| 8 | Exam costs @ £109.20 per exam | 16,052 | 9,500 | 37,674 | 16,708 | 18,346 | 17,363 | **115,643** | 353 pupils @ £109.20 per A level |
| 9 | Capitation (Teaching materials) | 16,200 | 13,200 | 44,200 | 21,200 | 25,400 | 20,200 | **140,400** | 702 pupils @ £200 |
| 10 | SEN 1:1 Support | 153,930 | 68,023 | 161,589 | 59,385 | 138,666 | | **581,593** | Not included TA3 - 3 in Units. TA2 - 4 in units |
| 11 | SEN - Extra intervention | 4,928 | 3,584 | 4,032 | 2,240 | 6,272 | 3,584 | **24,640** | 55 @ £448 |
| 12 | Free School Meals | 23,492 | 18,458 | 26,848 | 13,424 | 30,204 | 13,424 | **125,850** | 75 @ £1678 |
| 13 | **TOTAL** | **594,233** | **510,373** | **945,593** | **624,374** | **765,010** | **506,175** | **3,945,758** | |
| 14 | | | | | | | | | |
| 15 | Grant available 23/24 (excl 3% admin) | 475,634 | 409,782 | 1,081,969 | 582,245 | 675,809 | 561,152 | **3,786,591** | |
| 16 | | | | | | | | | |
| 17 | **Variance** | **- 118,599** | **- 100,591** | **136,376** | **- 42,129** | **- 89,201** | **54,977** | **- 159,167** | |
| 18 | | | | | | | | | |
| 19 | | | | | | | | | |
| 20 | **ASSUMPTIONS** | | | | | | | | |
| 21 | Teacher cost based on teacher at top of scale,plus TLR2c, plus 10% non contact time | | | | | | | | |
| 22 | Head of 6th form, assumed extra 30% non contact time | | | | | | | | |
| 23 | Data & Exam officer - based on 30% of a Gr8 post | | | | | | | | |
| 24 | Teaching materials @ £200 per pupil | | | | | | | | |

### 11.5.3 Gorbenion (overhead costs) ôl-16 2023-24

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | **Aberaeron** | **Aberteifi** | **Penglais** | **Penweddig** | **Bro Pedr** | **Bro Teifi** | | **TOTAL** |
| 2 | Energy | 162,102 | 166,398 | 249,413 | 239,006 | 209,381 | 155,000 | | 1,181,300 |
| 3 | R&M | 20,500 | 41,500 | 35,696 | | 31,000 | 66,000 | | 194,696 |
| 4 | Cleaning | 74,792 | 110,659 | 151,117 | | 175,476 | 134,864 | | 646,908 |
| 5 | Caretaker | 48,974 | 39,999 | 72,978 | | 38,754 | 53,759 | | 254,464 |
| 6 | Leadership | 461,888 | 904,862 | 1,298,066 | 463,897 | 614,528 | 565,680 | | 4,308,921 |
| 7 | Admin team | 222,905 | 220,230 | 486,130 | 185,450 | 164,952 | 188,475 | | 1,468,142 |
| 8 | Exam Invigilators | 20,000 | 47,407 | 18,000 | 13,573 | - | 4,000 | | 102,980 |
| 9 | Librarian | 14,394 | 29,744 | 31,416 | - | 30,839 | - | | 106,393 |
| 10 | **TOTAL** | **1,025,555** | **1,560,799** | **2,342,816** | **901,926** | **1,264,930** | **1,167,778** | | **8,263,804** |
| 11 | | | | | | | | | |
| 12 | Total Pupils | 599 | 604 | 1085 | 619 | 669 | 554 | | 4,130 |
| 13 | Total Post 16 pupils | 84 | 66 | 221 | 106 | 134 | 101 | | 712 |
| 14 | | | | | | | | | |
| 15 | **Overheads for Post 16** | **143,817** | **170,551** | **477,200** | **154,449** | **253,364** | **212,898** | | **1,412,280** |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Iau, 6 Gorffennaf 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Chris James (Is-gadeirydd), Euros Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Paul Hinge, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Mark Strong.

**Hefyd yn bresennol:** Rhodri Evans, Jonny Greatrex (Aelod Cyfetholedig) a Cathryn Charnell-White (Aelod Cyfetholedig)

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorydd Wyn Thomas.

**Swyddogion yn bresennol:** Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Dysgu Gydol Oes; Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Ysgolion; Carys Davies, Rheolwraig Strategol Gofal Plant; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol- Atebolrwydd a Chynnydd; Llifon Ellis, Pennaeth Strategol e-sgol; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.39pm)

1 **Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorydd Marc Davies am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 **Materion Personol**

i. Llongyfarchodd y Cynghorydd Wyn Thomas bawb a oedd ynghlwm â chystadleuaeth Talwrn y Beirdd ar gyfer ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol, a gynhaliwyd yn ddiweddar yn ystod Gŵyl Fawr Aberteifi.
ii. Llongyfarchodd y Cynghorydd Wyn Thomas Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn a oedd yn dathlu 185 o flynyddoedd eleni.
iii. Estynnodd y Cynghorydd Wyn Thomas longyfarchiadau i Kay Morris ac Eryl Jones am drefnu gweithdy llwyddiannus ar roboteg i dros 300 o ddisgyblion.
iv. Nododd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan fod Ffair Ieithoedd yn Llambed, ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ar 8 Gorffennaf.

**4 Diweddariad ar lafar ar ddiwygio TGAU (TGAU Gwneud-i-Gymru)**

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Barry Rees, y Pwyllgor am y cyfle i drafod y mater dan sylw. Rhoddwyd trosolwg o'r newidiadau a gynigiwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Hydref a Rhagfyr 2022 ar y gwaith o ddiwygio TGAU gan Gymwysterau Cymru, corff statudol annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fe fyddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a bwrdd arholi CBAC fyddai'n gweithredu'r newidiadau.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ddiweddar iawn a dyna pam rhoddir diweddariad ar lafar yn hytrach nag adroddiad ysgrifenedig. Gellid nodi nifer o bryderon o'r canlyniad, gan gynnwys cyfuno Bioleg, Cemeg a Ffiseg i greu TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl), a fyddai'n arwain at ddileu TGAU gwyddoniaeth ar wahân (Dyfarniad Triphlyg) a gynigir gan 80% o ysgolion Cymru.

Roedd y dystiolaeth o ddeilliannau'r Ymgynghoriad yn awgrymu bod consensws yr 456 o ymatebwyr wedi cael ei ddiystyru, fel yr adlewyrchir yn y canfyddiadau isod:

- Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)? Roedd 13% yn cytuno â'r cynnig ar gyfer TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl), gyda 78% yn anghytuno.
- I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn bodloni anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru? Roedd 12% yn cytuno bod y cynnig ar gyfer TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru, gyda 75% yn anghytuno.

Er gwaethaf yr ymatebion clir, roedd Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi y byddai TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn cael ei ddatblygu, gan ddisodli TGAU gwyddoniaeth ar wahân. Gallai'r penderfyniad hwn arwain at heriau i ddisgyblion a oedd yn dymuno dilyn llwybrau traddodiadol, megis astudio meddygaeth neu filfeddygaeth yn y brifysgol ac ar gyfer prentisiaethau. Fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Gorfforaethol yr awdurdod lleol, un amcan oedd hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth, felly, roedd sgiliau gwyddonol cryf yn allweddol ar gyfer mentrau lleol megis AberInnovation a Chanolfan Bwyd Cymru. Eglurodd Barry Rees fod gwybodaeth wedi ei rhannu am y cynigion gydag arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol, Cadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Barry Rees. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd y sector addysg uwch yn rhan o'r ymgynghoriad ac wedi cadarnhau fod y llwybr o'r TGAU Dyfarniad Dwbl i Safon Uwch ac ymlaen i addysg uwch yn ddilys. Er hyn, codwyd pryderon gan Swyddogion ac Aelodau y byddai'n creu llwybr anoddach i ddisgyblion o'i gymharu â disgyblion yn Lloegr a fyddai'n elwa o astudio TGAU gwyddoniaeth ar wahân ac a fyddai'n cadw'r llwybr llinellol.

- Mynegwyd pryderon fod y newidiadau fyddai'n cael eu cyflwyno o fis Medi 2025 ymlaen yn gam sylweddol yn ôl ac y byddai'n atal disgyblion rhag arbenigo mewn pynciau.
- Awgrymwyd y gallai'r newidiadau fod yn sgil diffyg athrawon, fodd bynnag, byddai'r ateb hwn yn creu problem arall.
- Roedd newidiadau yn cael eu cynnig ar gyfer pynciau eraill hefyd. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod diweddarach.
- Holwyd am y rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau. Nodwyd bod uchelgais i roi addysg gytbwys i ddisgyblion. Yn ogystal, byddai'n caniatáu peth amser yn y Cwricwlwm i ddisgyblion astudio pynciau eraill gan gynnwys Bagloriaeth Cymru. Ystyriwyd bod cyfuniad o bynciau traddodiadol/ academaidd a galwedigaethol yn bwysig ond roedd tynnu'r dewis oddi wrth ddisgyblion yn peri pryder.
- Y cam nesaf i Gymwysterau Cymru oedd cyflwyno'r cynigion yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i benderfynu yn eu cylch. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfleoedd i fynegi barn am y newidiadau wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a dau ffigwr allweddol (Prif Weithredwr Cymwysterau Cymru a Jeremy Miles AS, y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg).
- Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch a fyddai'r newidiadau yn cael effaith ar geisiadau i brifysgolion. Honnodd Cymwysterau Cymru y byddai TGAU y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl) yn ddigonol gan fod y pwyntiau ar gyfer mynediad yn seiliedig ar raddau Safon Uwch. Roedd cyrsiau megis meddygaeth eisoes yn anodd i gael lle arnynt o ystyried y graddau uchel oedd eu hangen, ac o ganlyniad, sefydlwyd cyrsiau sylfaen. Roedd hyn yn creu llwybr hir i ddisgyblion gyrraedd eu nod, fodd bynnag, byddai'r newidiadau a gynigir yn ei gwneud hi'n fwy heriol eto.

Yn dilyn argymhellion gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Barry Rees yn drafftio llythyr i'w anfon at Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru, a Llywodraeth Cymru a Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i fynegi pryderon dwfn gan ganolbwyntio ar dair egwyddor: tynnu'r dewis oddi wrth y disgyblion, diystyru barn yr ymatebwyr a'r effaith ar lwybr addysgol disgyblion. Cytunwyd y byddai'r llythyr yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor a'i gyflwyno yn enw'r Pwyllgor.

**5 Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 - Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 (2022-2023)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022-2027 - Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 (2022-2023). Rhoddwyd trosolwg o'r canlynol, fel y nodwyd yn yr adroddiad:

- Cefndir
- Y sefyllfa ar hyn o bryd
- Pryderon
- Camau i'w cymryd i gau'r bylchau hyn
- Cynnal/gwella'r ddarpariaeth (poblogaeth- genedigaethau byw, lleoedd gofal plant, tlodi plant, Allgymorth Dechrau'n Deg )
- Y Iaith Gymraeg (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CySGA)

Rhannodd Carys Davies fideo byr o'r gwaith a wnaed mewn gwahanol sefydliadau gofal plant ledled y sir ar ôl i'r darparwyr wneud ceisiadau llwyddiannus am grant.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd Dechrau'n Deg wedi gweithio'n agos gyda darparwr preifat yn Llanbedr Pont Steffan i ystyried opsiynau i ehangu eu darpariaeth nhw, ond roeddent wedi penderfynu yn erbyn hynny. Oherwydd yr angen am ddarpariaeth bellach yn yr ardal, roedd opsiynau yn cael eu hystyried gan gynnwys dod o hyd i leoliad addas.
- Nodwyd y dylai'r Cyngor weithio gyda cheisiadau cynllunio am ofal plant gan fod diffyg darpariaeth yn y sir.
- Mae arian grant cyfalaf wedi bod o fudd i'r sector ddatblygu amgylchedd y lleoliad, ond mae'r angen gwirioneddol am gyllid refeniw i gefnogi cyflogau'r staff. Codwyd hyn gyda Llywodraeth Cymru.
- Pwyslais Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd oedd ehangu darpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer plant dwy oed yng Ngheredigion. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo rhagor o ardaloedd Dechrau'n Deg ym mis Mawrth 2023 ac roedd gwaith yn mynd rhagddo fesul cam i weithredu'r elfen gofal plant.
- Mae Ceredigion wedi'i nodi fel un o bum Awdurdod Lleol yng Nghymru fydd yn gweithio gyda Cyllid a Thollau EF a Hempsall's yn y flwyddyn sydd i ddod i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Ofal Plant Di-dreth. Gallai'r cymorth ariannol gefnogi rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant ar gyfer plant 0–12 oed. Drwy godi ymwybyddiaeth, y gobaith yw y byddai'n arwain at gynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n manteisio ar y cynllun.
- Mynegodd yr Aelodau fod 'Y Dyfodol', a fu'n feithrinfa breifat yng Nghellan, yn wag. Adroddwyd nad oedd gan yr awdurdod lleol gyllid i sicrhau'r ddarpariaeth ac roedd y swm bychan, y pen, o Ddechrau'n Deg ond yn ariannu'r ddarpariaeth gofal plant. Yn ogystal, roedd telerau Dechrau'n Deg yn benodol ac yn dibynnu ar gôd post cyfeiriad y plentyn a ph'un a oedd o fewn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Yn dilyn cynnig gan yr Aelodau, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet/ Grŵp Arweiniol yn ystyried opsiynau parthed 'Y Dyfodol' yng Nghellan, o ystyried yr angen am ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal.

Hefyd, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r cynnydd a wnaed i roi'r cynllun gweithredu cyfredol ar waith a'r problemau y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu o ran bodloni ei ddyletswydd i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael.

**6 Trosolwg o e-sgol**

Esboniodd y Cynghorydd Wyn Thomas bod y prosiect e-sgol wedi bod yn rhedeg ers Medi 2018, gyda'r bwriad gwreiddiol o gefnogi ysgolion trwy gynnig gwersi, trwy e-ddysgu i ddisgyblion ôl-16, na fyddai ar gael heb y ddarpariaeth hon. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru, a Cheredigion sy'n gyfrifol am gydlynu'r prosiect yn genedlaethol. Ar ôl treialu yng Ngheredigion, symudwyd ymlaen i Bowys a GWE, ble mae effaith

gadarnhaol e-sgol i'w weld yn ffynnu erbyn hyn. Mae'r tîm wedi tyfu i gynnwys Pennaeth, 3 Arweinydd Uwchradd ac un Arweinydd Cynradd i ddechrau yn y dyfodol agos. Mae'r prosiect hefyd wedi amsugno peth o waith y prosiect "Ymlaen a'r Dysgu" sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg ôl-16 o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd am gario ymlaen i ddatblygu eu sgiliau yn y chweched dosbarth. Ym mis Ionawr 2021, comisiynwyd e-sgol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres o sesiynau adolygu byw ar gyfer myfyrwyr TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch (Carlam Cymru). Caiff y rhain eu recordio hefyd, er mwyn i fyfyrwyr ailymweld â hwy ar unrhyw adeg. Nod y sesiynau yw cyfoethogi gwybodaeth y myfyrwyr mewn gwahanol bynciau ac i gynnig cymorth pellach i'r gwaith anhygoel mae'r athrawon yn eu cyflawni yn eu hysgolion. Mae'r sesiynau adolygu byw am ddim ac ar gael i bob myfyriwr ledled Cymru a thu hwnt.

Ers y pandemig, mae dysgu cyfunol wedi dod yn gyfarwydd i holl ddisgyblion Cymru ac mae arweinwyr e-sgol wedi bod yn flaengar yn cynnig cymorth a hyfforddiant i ysgolion yn y maes hwn. Elfennau llwyddiannus eraill sydd wedi eu lansio yn ddiweddar gan dîm e-sgol yw gweithio gyda'r Mudiad Meithrin ar draws Cymru; a'r cynllun o gysylltu Unedau Cyfeirio Disgyblion gydag ysgolion cyfagos sy'n ffordd o ddarparu cyrsiau TGAU i ddisgyblion bregus tra'n hyfforddi athrawon prif-lif ar dechnegau addysgu penodol.

Rhoddodd Llifon Ellis gyflwyniad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r canlynol:

- Strwythur y Tîm e-sgol
- Beth yw e-sgol?
- Trafodaethau ar y gweill
- Prosiectau diweddar
- Model addysgu hybrid a sut mae'n gweithio
- Gosodiad disgybl a'r athro
- Llais y disgybl
- Hyfforddiant a chefnogaeth

Diolchodd yr Aelodau i Llifon Ellis am roi cyflwyniad llawn gwybodaeth ac roedd yn braf clywed bod Ceredigion yn arwain y gwaith.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion a oedd yn bresennol. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ymwneud â chysylltedd digidol, nodwyd na fu unrhyw anhawster yn y sefydliadau addysgol gan fod y seilwaith sydd ar waith yn dda ar y cyfan.
- Cafwyd trafodaethau rhwng ysgolion o fewn y clwstwr ynghylch pwy oedd yn darparu cyrsiau. Roedd y cyllid ar gyfer y ddarpariaeth yn amrywio o awdurdod i awdurdod, ond yng Ngheredigion roedd model ariannu ar waith rhwng ysgolion i gefnogi hyn.
- Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn astudio un cwrs e-sgol ar y tro ac yn cael mynd ar gyrsiau eraill wyneb yn wyneb.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

7 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

8 **I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23**

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen Raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Canlyniadau TGAU a Lefel A 2023 (Medi 2023)
- Addysg Ôl-16 (Medi 2023)
- Diwygio TGAU (Medi 2023)
- Adborth ar y Cynllun Datblygu Unigol (Tachwedd 2023/ Mai 2024)

Yn dilyn cynnig, gofynnwyd i'r Gwasanaethau Democrataidd gynnal ymholiadau ynghylch a oedd cyfleusterau hybrid ar waith yn Ysgol Cwrtnewydd i gynnal y cyfarfod ym mis Tachwedd. Os nad oedd hyn yn bosib, trefnir ymweliad i weld y gwaith a wnaed yn yr ysgol, a hynny fel rhan o'r ffrwd waith a ystyrir gan y Swyddogion ym mis Medi.

9 **Unrhyw Fusnes Arall**

i. Nododd y Cynghorydd Wyn Thomas fod Cyngerdd y Proms Iau yn cael ei chynnal ar 6 Gorffennaf 2023 a Chyngerdd y Proms Hŷn yn cael ei chynnal ar 11 Gorffennaf 2023. Diolchwyd i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am eu gwaith.
ii. Esboniodd y Cynghorydd Wyn Thomas fod y gwaith wedi dechrau ar safle ysgol ardal newydd Dyffryn Aeron. Rhoddir y diweddaraf am y prosiect i'r Pwyllgor maes o law.
iii. Nododd yr aelodau fod anawsterau o hyd gyda'r system hybrid, a oedd yn golygu bod rhai yn methu rhannau o'r drafodaeth. Nodwyd bod y Swyddogion TGCh wedi cael gwybod am yr anawsterau a oedd yn digwydd yn ystod y cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **28 Medi 2022** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22/09/2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2023/24

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| Cymunedau sy’n Dysgu | | | |
| 8 Mehefin 2023 | Cynllun Busnes Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru<br><br>Dogfen trosglwyddo ADY<br><br>Cofnodion cyngor ieuenctid<br><br>Arolygiadau ESTYN | Arweinydd Strategol PACC a'r Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion | Argymhellion<br><br>Argymhellion<br><br>Monitro<br><br>Monitro |
| 6 Gorffennaf 2023 | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant<br><br>E-sgol | Carys Davies<br><br>Gwion Dafydd | Monitro<br><br>Monitro |
| 28 Medi 2023 | Adolygiad ol 16 | | Argymhellion |
| 27 Tachwedd 2023 | Canlyniadau TGAU/ lefel A<br><br>Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith & Multiply | <br><br>Mark Gleeson | Monitro |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 22 Chwefror 2024 1.30pm | Cyllideb | | |
| 9 Mai 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Asesiad Digonolrwydd Chwarae<br><br>Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (adroddir bob hydref) | | |
| Ffrydiau Gwaith | 1. Sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol<br><br>2. Sicrhau ecwiti i bob disgybl<br><br>3. Sicrhau is adeiledd effeithiol ac effeithlon i gwrdd â'n blaenoriaethau | | |